# ATODIAD 2

# Cofnodion Cyfarfodydd Ymgynghoriad Statudol

## Atodiad 2.1

## Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Brithdir 02-11-11

# CYFARFOD STATUDOL STAFF YSGOL BRITHDIR 4:00, 2 TACHWEDD 2011

6 o staff yn bresennol yn cynnwys y pennaeth, staff dysgu a staff ategol. Nodwyd bod un aelod o staff yn methu bod yn bresennol.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Sandra Evans - Uwch Swyddog Personél, Gwenno Williams - Rheolwr Glanhau, Gofal ac Arlwyo, Carys Roberts - Rheolwr Contractau Meirionnydd, Gwenan Jones-Parry - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad oedd yn cynnwys tri rhan. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir. Cyflwynodd Sandra Evans wybodaeth ar faterion personél, yn cynnwys y cymorth sydd ar gael i staff yn ystod y broses.

**Trafodaeth Agored - Sylwadau a Cwestiynau**

Eglurwyd bod angen nodi manylion personol ar y ffurflen ymateb a'i atodi i lythyr i ymateb i'r ymgynghoriad. Nodwyd ei bod yn bwysig derbyn sylwadau.

*Nodwyd bod swyddi'n allweddol a bod y gynulleidfa'n deall bydd pawb yn cael ei diswyddo wrth weithredu'r cynnig, ond gofynnwyd i ba raddau gall y Sir warchod staff presennol yr ysgolion dan sylw?*

Atebwyd mai argymhelliad yr Awdurdod yw bod llywodraethwyr yr ysgol newydd yn rhoi cyfle i staff y pedair ysgol dan sylw yn gyntaf, ond os nad ydynt yn llwyddo i benodi bydd hawl ganddynt wedyn i hysbysebu'n ehangach. Nodwyd fod cyfrifoldeb penodi staff yn nwylo'r llywodraethwyr.

*Nodwyd byddai gormodedd staffio, gofynnwyd pryd fyddai staff yn cael eu penodi? A fydd y corff llywodraethol yn sefydlu amserlen staffio?*

Eglurwyd y byddai'r corff llywodraethol "cysgodol" yn penodi pennaeth i gychwyn, yn unol â'r drefn apwyntio sydd yn bodoli nawr. Er mwyn cychwyn ar 1 Medi, byddai'n rhaid penodi erbyn 31 Mai, ar y hwyraf. Mae amserlen gweithredu'r cynnig yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cyngor ac os derbynnir gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol a'i pheidio.

*Gofynnwyd pa nifer o blant fyddai'n galluogi mwy o staff?*

Eglurwyd bod cyllid ysgolion yn ddibynnol yn llwyr ar niferoedd y plant. Yn achos y cynnig yma bydd gan yr ysgol dau safle, bydd yn derbyn lwfans aml-safle. Bydd hwn yn mynd o flaen y grŵp fformiwla gan ei fod yn fodel hollol newydd. Ar draws y Sir, os yw nifer ysgol o dan 42, mae'r ysgol yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio i alluogi pennaeth ac athro. Ni fydd yr ysgol yn derbyn hwn gan y bydd

y niferoedd yn uwch na hyn, ond argymhellir y byddai yn derbyn y lwfans aml-safle sydd werth dwbl y swm gwarchodaeth staffio sydd yn cael ei rhoi i Frithdir a Dinas Mawddwy ar hyn o bryd.
*Nodwyd gan y pennaeth bod disgyblion yr ysgol wedi llenwi holiaduron am y cynnig yn ystod y prynhawn a bod yr ymateb yn bositif iawn. Y cais cyntaf gan ran helaeth y disgyblion oedd cael cae chwarae gwellt a man chwarae allanol newydd. Nododd y pennaeth bod yn dristwch bod diffyg coed a glaswellt yn yr ysgol bresennol.*

*Nodwyd bod y staff eisiau sicrhad bydd lle digonol er mwyn niferoedd disgyblion dan sylw. Byddai mannau storio priodol yn hanfodol, mae rhai ysgolion Siroedd eraill yn y gorffennol wedi ei hadeiladu heb ddigon o le oherwydd cynllunio heb fewnbwn pobl briodol.*

Nid oedd arweiniad/canllawiau yn y gorffennol i gynllunio ysgolion newydd. Nawr mae canllawiau statudol yn eu lle i alluogi cynllunio llwyddiannus. Eglurwyd fod Gwynedd wedi dysgu llawer wrth gynllunio ysgol newydd yng Nghaernarfon ac ym Mro Dysynni. Mae fformiwla benodol gan y Llywodraeth sydd yn datgan maint ysgol yn ddynodedig ar nifer y disgyblion. Bydd yr ysgol yn cael ei chynllunio ar ragolygon niferoedd 2013 gyda 10% ychwanegol.

*Nodwyd pryder am y dyddiad gweithredu. Derbyniwyd cais i wybod beth fyddai'n digwydd i'r plant os na fydd yr ysgol newydd yn barod 1 Medi 2013.*

Ni ragwelir rheswm am oediad ar hyn o bryd gan fod digon o amser i gwblhau'r broses statudol a'r gwaith adeiladu cyn y terfyn amser. Mae'r opsiwn cyfreithiol yn ei le i brynu'r tir a chyfnod o 9-12 mis wedi dynodi am adeiladu. Os am unrhyw reswm byddai'r gwaith heb ei gwblhau byddai'r disgyblion yn aros yn eu hysgolion tan y byddai'n barod.

*Soniwyd am gynaladwyedd yr adeilad newydd, bydd yn adeilad gwyrdd?*

Nodwyd bod unrhyw adeilad newydd yn gorfod cyrraedd gofynion penodol iawn. Mae gan y Cyngor cynllun carbon safon uchel felly bydd strwythur yr adeilad newydd yn cael ei wneud i gyrraedd y gofynion yma.

*Ymwybodol bod Ieuan Gwynedd gydag ardal arbennig yn yr adeilad i blant anabl, bydd yr ysgol newydd yn cynnwys hyn?*

Mae Ieuan Gwynedd yn ysgol ddynodedig yr ardal i dderbyn disgyblion anabl ac awtistig. Nid yr ysgol ardal fydd yr ysgol ddynodedig, bydd y ddarpariaeth yma'n cael ei drosglwyddo i Ysgol Cynradd Dolgellau. Golygai hyn mai Ysgol Gynradd Dolgellau bydd yn derbyn disgyblion awtistig yr ardal. Mae unrhyw ysgol newydd yn cael ei adeiladu i safon mynediad anabledd, felly bydd adeilad newydd yr ysgol ardal yn cael ei adeiladu yn cynnwys y gofynion yma.

Nododd Dewi Jones y byddai cyfle nawr i aelodau staff yr ysgol cael sgwrs gyda swyddogion personél y Cyngor.

Atgoffwyd pawb fod rhaid derbyn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 13:00 25 Tachwedd 2011.

Diolchodd Dewi Jones i bawb am fynychu ac am y sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL LLYWODRAETHWYR YSGOL BRITHDIR 5:00, 2 TACHWEDD 2011

8 o lywodraethwyr yn bresennol yn cynnwys Aelod Lleol, pennaeth ac aelodau staff yr ysgol. Derbyniwyd ymddiheuriad gan un llywodraethwr oedd yn methu bod yn bresennol, bydd yn mynychu'r cyfarfod rhieni sydd yn dilyn.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate – Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard – Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen – Rheolwr Cyllid Datblygu, Gwenan Jones-Parry – Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir.

**Trafodaeth Agored - Sylwadau a Cwestiynau**

Nodwyd pwysigrwydd derbyn sylwadau.

*Gofynnwyd faint o lywodraethwyr bydd ar gorff llywodraethol yr ysgol newydd? Ar hyn o bryd mae 11 gyda thri rhiant llywodraethwr. Bydd yr ysgol ardal yn cynnwys pedwar ardal wahanol bydd angen cynrychiolaeth gyfartal.*

Hwn yw'r ysgol ardal aml-safle cyntaf felly nid oes ateb parod. Mae nifer disgyblion ysgol yn nodi nifer y llywodraethwyr a ni fydd nifer yr ysgol yma'n taro'r hicyn sydd yn caniatáu mwy o lywodraethwyr. Nid oes ateb pendant gan yr Awdurdod ar hyn o bryd, gaiff y pwynt i'w ymchwilio am ymateb llawn.

*Nodwyd pryder bod ysgol newydd am ddenu mwy o blant all-dalgylch, ar ba sail bydd maint yr ysgol yn cael ei dylunio?*

Mae fformiwla benodol gan y llywodraeth sydd yn datgan maint ysgol yn ddibynnol ar nifer y disgyblion. Bydd yr ysgol yn cael ei chynllunio ar y nifer o ddisgyblion rhagwelir yn 2013 gyda 10% ychwanegol. Yr Awdurdod sydd yn rheoli mynediad i ysgolion, rhaid cydnabod bydd diddordeb all-dalgylch ond fydd disgyblion dalgylch yr ysgol yn cael blaenoriaeth dros ddisgyblion all-dalgylch. Yn Bangor mae rhestrau aros i ddisgyblion fynychu ysgolion, mae gan yr Awdurdod brosesau i ddilyn yn y sefyllfa yma. Atgoffwyd bod yr ardal yma'n unigryw gyda llawer o symud o ddalgylch i ddalgylch.

*Pryderon am y dyddiad gweithredu, 1 Medi 2013 ddim yn realistig. Pryder am argaeledd adeiladwyr yn yr ardal.*

Ni ragwelir rheswm am oediad ar hyn o bryd gan fod digon o amser i gwblhau'r broses statudol a'r gwaith adeiladu cyn y terfyn amser. Mae'r opsiwn cyfreithiol yn ei le i brynu'r tir a chyfnod o 9-12 mis wedi ei ddynodi ar gyfer adeiladu. Gwbwl rhesymol gwireddu'r amserlen ar hyn o bryd. Mae'n

anoddach cael adeiladwyr yn Meirionnydd ond mae contractau adeiladwyr i brosiect Ysgol yn Llanegryn yn dechrau cael ei dderbyn ac mae diddordeb. Ni ragwelir y bydd problem denu adeiladwyr i wneud cynllun o'r maint yma.

*Oes arian ar gyfer y cynllun, oes unrhyw warant ei fod ar gael?*

Nodwyd fod yr arian yn ei le i wireddu'r cynnig petai'n cael ei gymeradwyo. Mae £1.65miliwn o arian y Cyngor wedi clustnodi yn barod i wneud yn siŵr bod dim oedi yn y rhan yma o'r dalgylch. Mewn ardaloedd eraill roedd rhaid rhoi cais i Llywodraeth Cymru am arian ond mae llai o arian ar gael i gymharu â'r gorffennol. Mae cyfle i roi cais ariannol nawr ond ni fydd cyfle arall am 6 mlynedd. Roedd rhaid dewis un ai oedi a rhoi cais am arian at Ysgol Newydd neu weithredu gydag arian y Cyngor a gwneud datblygiad fforddiadwy. Penderfynwyd nad oedd yn bosib oedi yn yr ardal yma oherwydd niferoedd bregus y plant.

*Codwyd pryderon ynglŷn â'r arian a glustnodwyd, efallai na fydd £1.65miliwn yn ddigon?*

Eglurwyd fod y costau wedi eu gwneud gan bensaer arbenigol. Nid oes rheswm i feddwl na fyddai'r swm yn ddigonol. O gymharu roedd estyniad Ysgol Pentreuchaf tua £900mil ond mae mwy o waith yn cael ei wneud ar safle Brithdir a dyma pam clustnodwyd mwy o arian.

*Dangoswyd dau opsiwn yn y cyflwyniad, adeilad modern ac adeilad traddodiadol. Oes gwahaniaeth mawr yn y ddau opsiwn o ran cost? Hefyd, o ran costau cynnal a chadw?*

Nid oes fawr wahaniaeth, mae cost yr un modern ychydig llai ond does dim mantais ariannol i un o'r ddau. Ynglŷn â chynnal a chadw, wrth adeiladu byddai'r ddau fodel yn cael ei wneud i'r safon uchaf bosib wrth feddwl am wresogi ayyb ond anodd cymharu costau cynnal a chadw heb edrych yn fwy manwl. Nodwyd bod costau cynnal a chadw ddim yn cael eu talu gan yr ysgol ond gan yr Awdurdod.

*Gofynnwyd pa fodel sydd well gan y gynulleidfa.*
Nodwyd gan y mwyafrif eu bod yn hoffi'r traddodiadol.

*Nodwyd gan aelod o'r gynulleidfa bod adeilad presennol Brithdir yno ers 1897 ac nid oedd yn bosib ei atgynhyrchu. Rhaid symud ymlaen, mae cael cyfle i greu rhywbeth priodol i'r oes yma gyda'r un deunyddiau gafodd ei ddefnyddio i greu'r adeilad presennol yn gyffrous. Gafodd ei nodi hefyd bod rhaid i olwg yr adeilad newydd weddu gyda'r pentref, er ei fod ar gyrion y pentref.*

Atgoffwyd mai cynllun cysyniadol yw'r rhai a gyflwynwyd a byddai cyfle i grŵp defnyddwyr yn cynnwys staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol rhoi mewnbwn wrth ddatblygu'r dyluniad terfynol.

Nodwyd bod materion staff wedi eu trafod gyda staff yr ysgol yn y cyfarfod blaenorol a bod swyddogion personél y Cyngor wedi rhoi cyflwyniad byr iddynt.

Diolchodd Dewi Jones i'r llywodraethwyr am fynychu ac am eu sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL RHIENI YSGOL BRITHDIR 6:00, 2 TACHWEDD 2011

24 o rieni yn bresennol, ymddiheuriadau gan bum rhiant am fethu bod yn bresennol [Heidi Rowden, Gwerfyl Price, Elen Lewis Smith, Elin Thomas, Hannah Hughes].

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate – Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard – Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen – Rheolwr Cyllid Datblygu, Gwenan Jones-Parry – Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir.

**Trafodaeth Agored - Sylwadau a Cwestiynau**

*Gofynnwyd gan aelod o'r gynulleidfa os yw'n bwysig derbyn sylwadau'r i'r ymgynghoriad.*

Atebwyd bod o'n greiddiol bwysig derbyn barn pawb ynglŷn â'r ymgynghoriad. Pwynt y cyfnod yw cael sylwadau'r bobl leol, ar ddiwedd y cyfnod bydd rhaid i Gynghorwyr y Sir benderfynu ar gymeradwyo'r cynnig neu beidio, yn sgil y farn a'r dystiolaeth sydd yn cael ei gyflwyno. Bydd bob llythyr/e-bost yn cael ei gyflwyno i bob Gynghorydd. Mae'r un mor bwysig i dderbyn sylwadau gan bobl sydd o blaid ac sydd yn erbyn, fel bod darlun cyflawn yn cael ei adlewyrchu. Cynigwyd efallai bydd rhieni yr ysgol eisiau ysgrifennu llythyr gyda'i gilydd i fynegi eu barn.

*Codwyd pryderon ynglŷn â niferoedd Dinas Mawddwy. Beth fyddai'n digwydd pe byddai niferoedd yn disgyn yno?*

Yn sgil derbyn y lwfans aml-safle bydd Dinas Mawddwy yn derbyn mwy o warchodaeth ariannol nag ydy ar hyn o bryd drwy dderbyn y warchodaeth lleiafswm staffio. Ni fydd yr ysgol ardal aml-safle dan anfantais o gael dau safle. Bydd y lwfans yma yn gwarchod safle Dinas Mawddwy yn fwy na'i sefyllfa bresennol.

*Bydd symudiad plant rhwng y ddau safle?*

Ni ragwelir y byddai plant yn symud yn ddyddiol o un safle i'r llall. Efallai byddai'n digwydd ar rai achlysuron arbennig ond dim yn gyson. Mae'n rhoi cyfle unigryw i rannu, a manteisio ar arbenigeddau staff y ddau safle. Mae'r cynnig yma'n argymell datblygu cysyniad o un ysgol ardal, sydd digwydd bod ar ddau safle.

*Codwyd nifer o bryderon ynglŷn â'r amserlen. Medi 2013 yn rhy uchelgeisiol? Beth sydd yn digwydd i'r amserlen os yw un o'r ysgolion yn gwrthod cau? Nid oedd rhai yn deall sut byddai'r broses cynllunio yn ei le cyn dechrau adeiladu o fewn yr amserlen.*

Nodwyd ei bod yn rhesymol gwireddu'r amserlen, ni ragwelir rheswm am oediad ar hyn o bryd. Mae'r opsiwn cyfreithiol yn ei le i brynu'r tir a chyfnod o 9-12 mis wedi ei glustnodi ar gyfer adeiladu. Golygai hyn bod angen cychwyn y gwaith ar y safle Medi 2012 ar y cynharaf. Os cymeradwyir y cynnig gan y Cyngor Llawn 13 Rhagfyr 2011 bydd y Rhybuddion Statudol (arwyddion fydd yn mynd ar giatiau'r ysgolion i hysbysu eu bod yn cau) yn cael eu cyhoeddi yn Ionawr 2012. Mae cyfnod o fis i wrthwynebu'r cynnig. Os dderbynnir gwrthwynebiad rhaid trosglwyddo'r cynnig o fewn pythefnos i Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad yma, yn ogystal â'r ddogfennaeth gefndirol yn cael eu rhoi iddynt i benderfynu. Ar y mwyaf mae'r Llywodraeth yn cymryd saith mis i benderfynu sydd yn golygu penderfyniad ym mis Medi 2012. Nid oes unrhyw waith gyda chynllunio wedi digwydd ar hyn o bryd, dim ond trafodaethau defnyddio tir. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wrthwynebiad at newid defnydd y cae i gynnwys adeilad arno. Bydd rhaid i'r Cyngor fentro dechrau'r proses dylunio, sydd yn cynnwys gweithio gyda'r grŵp defnyddwyr yn ystod cyfnod penderfynu'r Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn digwydd i osgoi oedi ac os cymeradwyir y cynnig, bydd y gwaith yn barod i'w wneud yn syth. Rhaid cofio bod gan y Gweinidog Addysg dri opsiwn, i gymeradwyo, addasu neu wrthod y cynnig.

*Nodwyd gan rhai bod y ffordd wrth ymyl yr ysgol yn beryglus. Rhai'n gyrru'n gyflym iawn a mynediad ddim yn safonol i'r ysgol.*

Cododd y pwynt yma yn ystod trafodaethau PAD felly comisiynwyd asesiad traffig. Canlyniad hwn oedd bod y rhwydwaith ffyrdd yn gallu ymdopi gyda'r cynnydd mewn traffig yn sgil y cynnig yma. Rhaid amlygu bod mynedfa'r ysgol ardal yn symud i ochr arall yr adeiladau gyda llefydd parcio priodol i wella'r sefyllfa wrth ddanfon plant i'r ysgol. Gwelodd y swyddogion y sefyllfa bresennol yn gynharach yn y dydd, nid yw'n sefyllfa ddelfrydol. Bydd y ffordd o flaen yr ysgol yn cael ei hagor i fynnu i wella gweledEdd y fynedfa newydd. Bydd mesurau i arafu traffig yn bosib hefyd i wella'r sefyllfa.

*Beth sydd yn digwydd i gost y pen yn dilyn y cynnig?*

Ar hyn o bryd Brithdir sydd gyda'r gost y disgybl isaf yn nalgylch Y Gader ac Ieuan Gwynedd gyda'r uchaf (bron dwbl). Nodwyd byddai cost y disgybl yn agosáu at gyfartaledd y dalgylch yn dilyn gweithredu'r cynnig. Nodwyd fod holl ffigyrau cost y disgybl ar gael yn y ddogfen ymgynghorol statudol.

*Codwyd pryder ynglŷn â niferoedd disgyblion yn yr ysgol ardal. Ydi'r niferoedd a ragwelir yn cynnwys plant sydd yn mynychu yn bresennol sydd yn all-dalgylch, beth fyddai'n digwydd os fydd yr ysgol yn atynnu llawer o blant all-dalgylch?*

Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai 98 o ddisgyblion yn yr ysgol ardal yn 2013 (78 Brithdir a 20 Dinas Mawddwy). Mae hyn yn cyfrif holl ddisgyblion sydd yn mynychu'r ysgolion nawr, yn cynnwys rhagolygon niferoedd yr ysgolion ei hunain. Mae fformiwla benodol gan y Llywodraeth sydd yn datgan maint ysgol yn ddynodedig ar nifer y disgyblion. Bydd safle Brithdir yn cael eu cynllunio ar gyfer 78 gyda 10% ychwanegol. Yr Awdurdod sydd yn rheoli mynediad i ysgolion, rhaid cydnabod bydd diddordeb all-dalgylch ond fydd disgyblion dalgylch yr ysgol yn cael blaenoriaeth dros ddisgyblion all-dalgylch. Yn Bangor mae rhestrau aros i ddisgyblion mynychu ysgolion, mae gan yr Awdurdod brosesau i ddilyn yn y sefyllfa yma sydd yn cael ei weithredu ar draws y Sir. Atgoffwyd bod yr ardal yma'n unigryw gyda llawer o symud o ddalgylch i ddalgylch. Mae tuedd yn yr ardal i ddisgyblion ddod o Ddolgellau i'r ysgolion gwledig ond mae gan y Cyngor gynnig i ddatblygu Ysgol Gynradd Dolgellau hefyd.

*Codwyd pryder arall ynglŷn â niferoedd yr ysgol. Os bydd yr ysgol yn lleihau mewn niferoedd bydd yr ysgol yn edrych am blant tu allan i'r Sir? Mae Cymraeg yr ysgol yn gryf iawn ac mae llawer o deuluoedd Saesneg yn dod a'u plant yma i roi'r cyfle gorau iddynt ddysgu'r Gymraeg. Maent yn cael yr iaith yn y cynradd ac wedyn yn symud ymlaen i Ysgol Y Gader ac yn ei cholli oherwydd bod yr ysgol uwchradd wedi chwilio am ddisgyblion*

*i gynyddu eu niferoedd, yn sgil hynny wedi creu amgylchedd Seisnigaidd yno. Nid oes awydd lleol i golli'r Gymraeg gref sydd yn bodoli yn yr ysgol gynradd bresennol.*

Nid yw'n bosib rhagweld i'r dyfodol ynglŷn â niferoedd ond wrth weithredu'r cynnig y gobaith yw sefydlogi niferoedd yr ysgol a'i gwneud yn hyfyw i'r dyfodol. Bydd yr ysgol newydd yn ysgol Gymraeg ac mae polisi clir yn ei le i staff ddilyn. Rhaid cofio mai staff yr ysgol bydd yn ei weithredu, felly bydd cyfrifoldeb rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb arnynt hwy. Mae'r cynnig yma'n rhoi cyfle i'r ardal gyfan afael ar y mater a sicrhau bod yr addysg wledig yma'n cael ei ddarparu yn y Gymraeg. Atgoffwyd bod angen gweithredu ar frys yn yr ardal oherwydd bod niferoedd yn fregus. Os byddai'r Cyngor wedi edrych ar sail ariannol yn unig yr ateb gorau yw symud plant cynradd y dalgylch cyfan i'r dref a chreu un Ysgol Gydol Oes fawr ond mae'r Cyngor eisiau gwarchod addysg wledig yn yr ardal. Yn rhan o hyn, mae'n gwarchod y profiadau Cymraeg.

*Nodwyd byddai gormodedd staff wrth weithredu'r cynnig. Gofynnwyd a fydd staff Dinas Mawddwy yn aros yr un peth gan fod Dinas Mawddwy yn aros fel y mae hi.*

Cadarnhawyd bydd gormodedd staff os fydd y cynnig yn cael ei weithredu. Nodwyd bod 8 athro yn yr ysgolion ar hyn o bryd, ond rhagwelir mai 5 o athrawon llawn amser ( yn cynnwys y pennaeth) fydd yn yr ysgol ardal. Bydd y gyllideb yn cael ei rhoi yn seiliedig ar nifer y plant. Penderfyniad i'r llywodraethwyr bydd gwario'r arian, a phenderfynu faint o swyddi yn union ond bydd y gyllideb yn caniatáu 5 swydd llawn amser. Bydd staff y pedwar ysgol (yn cynnwys Dinas Mawddwy) yn cael ei diswyddo. Mae'r pedwar ysgol yn cau yn statudol, ni fydd Dinas Mawddwy yn bodoli fel heddiw, byddai'n un safle o'r ysgol ardal newydd. Bydd yr awdurdod yn argymell i'r corff llywodraethol newydd roi cynnig cyntaf y swyddi i staff presennol y pedwar ysgol ond os nad ydynt yn llwyddo i benodi bydd hawl ganddynt wedyn i hysbysebu'n ehangach. Nodwyd fod cyfrifoldeb penodi staff yn nwylo'r llywodraethwyr.

*Nodwyd pryder bod yr hyn sydd yn cael ei gyflwyno ar y cysyniad ddim yn mynd i gael ei weithredu, a bod y Cyngor yn mynd i ddweud ymhen amser nad oes digon o gyllid i roi bob dim sydd yn cael ei grybwyll nawr. Oes gwarant bydd cae a neuadd ar safle Brithdir? Ydi'r cyllid yn ddibynnol ar werthu adeiladau ysgolion eraill? Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd i weddill y Sir?*

Nid oes gwarant bod yr ysgol am edrych fel sydd ar y darlun cysyniadol oherwydd nid yw'r ymgynghori a grŵp defnyddwyr a'r broses cynllunio wedi ei gwblhau. Mae costau'r datblygiad wedi ei wneud yn cynnwys bob dim yn y dyluniad (cynnwys neuadd a chae chwarae) ac mae'r arian yn ei le gan y Cyngor, nid yw'n ddibynnol ar unrhyw werthiant. Nid yw'r cynnig yma'n ddibynnol ar gais arian cyfalaf i Llywodraeth Cymru. Mae ceisiadau ariannol nawr yn cael eu derbyn gan y Llywodraeth bob 5/6 mlynedd, mae cyfle nawr a ni fydd un arall am 6 mlynedd.

*Os gaiff y cynnig ei wrthod beth yw ail gynnig y Cyngor (plan B)?*

Fel nodwyd eisoes yn y cyflwyniad, cafodd 14 model ei ystyried yn nhrafodaethau'r dalgylch felly mae opsiynau eraill. Y cynnig yma yw'r un a ffafrir ac nid oes unrhyw un o'r modelau eraill yn fwy deniadol na'r lleill. Pwrpas yr ymgynghoriad yma yw cael barn a dyheadau pobl leol i weld os ydynt yn ffafrio'r cynnig a'i pheidio. O ran adnabod safle i'r ysgol ardal, Brithdir yw'r safle a ffafrir ond eto pwrpas yr ymgynghori yw darganfod os yw pobl yr ardal yn cytuno - efallai daw i'r amlwg bod safle arall yn cael ei ffafrio'n lleol. Atgoffwyd y gynulleidfa groeso iddynt ymateb i'r ymgynghoriad.

*Nodwyd gan un aelod o'r gynulleidfa, gyda chonsensws gyffredinol yr ystafell, ei fod yn falch iawn o'r cynnig gerbron, yn enwedig mai safle Brithdir sydd yn cael ei ffafrio fel safle. Nodwyd bod yn bwysig i bawb sydd yn cytuno a hyn i ysgrifennu i mewn. Gofynnwyd a yw aelodau o'r gymuned yn gallu ymateb?*

Eglurwyd bod yr ymgynghoriad yn agored i bawb ymateb a rhoi eu barn.

*Codwyd gan un rhiant bod yr ysgol ardal gyda maint dosbarthiadau uwch, nodwyd bod rhai rhieni yn dod a'u plant i'r ysgol oherwydd maint dosbarthiadau bychain. Os bydd y dosbarthiadau yn cynyddu bydd y niferoedd yn disgyn yn sgil hyn.*

Eglurwyd nad yw'n bosib rhagweld beth fyddai rhieni yn ei wneud ond lleihad niferoedd yn yr ardal sydd yn gyrru'r angen i weithredu. Mae niferoedd Ysgol Ieuan Gwynedd a Machreth wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf e.e. Machreth Medi 2010, 22 disgybl a Medi 2012, 16 disgybl. Bydd gan yr ysgol rhif mynediad a fydd yr Awdurdod yn rheoli'r niferoedd yn seiliedig arno. Ni fydd yr Ysgol Ardal yn fwy nag Ysgol Cynradd Dolgellau (oddeutu 150 o ddisgyblion yno).

*Nododd un rhiant ei bod yn dewis danfon ei phlant i ysgol Brithdir (er ei bod yn byw yn Dolgellau) oherwydd ethos yr ysgol. Cododd pryderon byddai gan yr ysgol ardal ethos gwahanol.*

Mater i staff a llywodraethwyr yr ysgol byddai cadw'r ethos glos/teuluol sydd yn bodoli heddiw yn ysgol Brithdir. Cytunwyd ei bod yn bwysig, ac efallai byddai hyn yn bwynt i'r llywodraethwyr gofio wrth benodi pennaeth a gweddill y staff.

*Nododd y pennaeth, er gwybodaeth, bod plant hynaf yr ysgol wedi llenwi holiadur (wedi ei ddarparu gan y Cyngor) yn ymateb i'r cynnig yn ystod y dydd. Ymateb positif iawn gyda materion fel cae chwarae ac ethos yr ysgol wedi codi. Un o gwestiynau'r holiadur oedd "Beth sydd yn gwneud ysgol dda?" ac ymateb y plant (heb arweiniad gan y staff) oedd 'addysg dda, ffrindiau a chymuned'. Mae'r materion fel ethos yn bwysig iddyn nhw hefyd. Siomedig oedd blwyddyn 5 a 6 ei bod yn gadael cyn i'r ysgol ardal agor.*

*Nodwyd rhai mai'r model mwyaf cynaliadwy o'r traddodiadol a modern byddai orau. Nodwyd pryderon bod y Parc Cenedlaethol (corff cynllunio) ddim yn mynd i dderbyn y model modern.*

Atebwyd bod y model traddodiadol wedi ei ddangos i'r Parc a'u bod yn pryderu bod yr adeilad newydd (sydd dipyn mwy na'r adeilad presennol) yn mynd i greu cysgod ar yr adeilad presennol. Ar gais y Parc Cenedlaethol gafodd y model modern ei greu. Bydd union ddyluniad yr ysgol yn drafodaeth gyffrous i gael, os dderbynnir y cynnig.

Diolchodd Dewi Jones i'r rhieni am fynychu ac am eu sylwadau.

# Atodiad 2.2

# Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Dinas Mawddwy 03-11-11

# CYFARFOD STATUDOL STAFF DINAS MAWDDWY 4:00, 3 TACHWEDD 2011

6 o staff yn bresennol yn cynnwys y pennaeth, staff dysgu a staff ategol. Nodwyd bod un aelod o staff yn methu bod yn bresennol.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Richard Farmer – Rheolwr Prosiect Adran Eiddo, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Sandra Evans - Uwch Swyddog Personél, Gwenno Williams - Rheolwr Glanhau, Gofal ac Arlwyo, Judith Jones - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad oedd yn cynnwys tri rhan. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Richard Farmer wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir ac am y gwelliannau arfaethedig i safle Dinas Mawddwy. Cyflwynodd Sandra Evans wybodaeth ar faterion personél, yn cynnwys y cymorth sydd ar gael i staff yn ystod y broses.

**Sylwadau a Cwestiynau**

Eglurwyd bod angen nodi manylion personol ar y ffurflen ymateb a'i atodi i lythyr i ymateb i'r ymgynghoriad. Nodwyd ei bod yn bwysig derbyn sylwadau.

*Gofynnwyd pam fo'r cynnig yn argymell darparu cae chwarae ar safle Brithdir pan fo darpariaeth chwarae ddigonol ar safle Dinas Mawddwy?*

Nodwy fod pob ysgol angen darpariaeth chwarae.

*Nododd y Pennaeth fod arolwg wedi ei wneud gan staff y Cyngor (Lynnette Baston) o gyflwr a diogelwch y maes parcio a'r buarth. Nodwyd nad oedd trefn bresennol y maes parcio'n ddigon da.*

Nododd Richard Farmer yn byddai'n edrych i mewn i hyn.

*Gofynnwyd a ydi athrawon sydd gyda chytundebau dros dro yn cael yr un cyfleon ac athrawon parhaol pan ddaw'n amser penodi staff ar gyfer yr ysgol ardal newydd?*

Nodwyd y byddai'r holl staff presennol yn cael y cyfle cyntaf ar gyfer ceisio am swydd, waeth be ydi statws eu cytundebau presennol. Pwysleisiwyd fod cyfrifoldeb penodi staff i'r ysgol ardal newydd yn nwylo'r Corff Llywodraethol newydd fyddai'n cael ei ffurfio.

*Gofynnwyd faint o gyd-weithio bydd rhwng y ddau safle?*

Nodwyd y byddai strwythur y cyd-weithio yn dod yn gliriach wedi i'r staff a'r Llywodraethwyr fod yn ei lle. Mae'n cynnig cyfle da i rannu arbenigeddau staff.

*Gofynnwyd am ba hyd fydd ysgol Dinas Mawddwy yn debygol o barhau'n hyfyw? Onid ydyw datblygiad newydd safle Brithdir am fod mwy atyniadol i rieni?*

Yn sgil derbyn y lwfans aml-safle bydd Dinas Mawddwy yn derbyn mwy o warchodaeth ariannol nag ydy ar hyn o bryd drwy dderbyn y warchodaeth lleiafswm staffio. Ni fydd yr ysgol ardal aml-safle dan anfantais o gael dau safle. Bydd y lwfans yma yn gwarchod safle Dinas Mawddwy yn fwy na'i sefyllfa bresennol.

*Roedd y Pennaeth yn awyddus i nodi fod ad-drefnu Dwyrain a Gorllewin Dalgylch Y Gader arwahan wedi bod yn benderfyniad annheg iawn a'i fod wedi creu ansicrwydd i blant, rhieni a staff. Nodwyd fod rhai rhieni yn ystyried symud eu plant i ysgolion yng ngorllewin y dalgylch gan y credant fod y sefyllfa'n fwy sefydlog yno.*

Nodwyd fod trafodaethau yn y Paneli Adolygu Dalgylch wedi cyfeirio at y ffaith y bydda Gorllewin y dalgylch yn cael ei ad-drefnu gyda bydda'r broses wedi ei chwblhau yn y Dwyrain ac nad oedd yn fwriad gan Y Cyngor i greu ansicrwydd.

*Sut mae cyllid yr ysgol ardal am gael ei ddyrannu?*

Nodwyd fod fformiwla ariannu ysgol aml-safle yn dir newydd. Nodwyd y bydd mewnbwn y Pennaeth a'r Llywodraethwyr yn allweddol. Nodwyd y bydda dyraniad digonol i ganiatáu Rheolwr safle ac athro yn Dinas Mawddwy.

*Gofynnwyd faint o lywodraethwyr bydd ar gorff llywodraethol yr ysgol ardal newydd? Bydd yr ysgol ardal yn gwasanaethu'r pedair ardal a bydd angen sicrhau cynrychiolaeth gyfartal.*

Hwn yw'r ysgol ardal aml-safle cyntaf yng Ngwynedd felly nid oes ateb parod. Mae nifer disgyblion ysgol yn nodi nifer y llywodraethwyr a ni fydd nifer yr ysgol yma'n taro'r hicyn sydd yn caniatáu mwy o lywodraethwyr. Serch hynny cadarnhawyd nad oes ateb pendant gan yr Awdurdod ar hyn o bryd, a nodwyd y byddai'r pwynt yn cael ei ymchwilio iddo ymhellach er mwyn darparu ymateb llawn.

Atgoffwyd mai cynllun cysyniadol yw'r rhai a gyflwynwyd a byddai cyfle i grŵp defnyddwyr yn cynnwys staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol rhoi mewnbwn wrth ddatblygu'r dyluniad terfynol.

Nododd Dewi Jones y byddai cyfle nawr i aelodau staff yr ysgol cael sgwrs gyda swyddogion personél y Cyngor.

Atgoffwyd pawb fod rhaid derbyn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 13:00 25 Tachwedd 2011.

Diolchodd Dewi Jones i bawb am fynychu ac am y sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL LLYWODRAETHWYR YSGOL DINAS MAWDDWY 5:00, 3 TACHWEDD 2011

10 o lywodraethwyr yn bresennol yn cynnwys Aelod Lleol, pennaeth ac aelodau staff yr ysgol.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate – Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Richard Farmer – Rheolwr Prosiect Uned Eiddo, Hefin Owen – Rheolwr Cyllid Datblygu, Judith Jones – Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Richard Farmer wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer safle Dinas Mawddwy.

**Sylwadau a Cwestiynau**

Nodwyd pwysigrwydd derbyn sylwadau.

*Sut mae cyllid yr ysgol ardal am gael ei ddyrannu?*

Nodwyd fod fformiwla ariannu ysgol aml-safle yn dir newydd. Nodwyd y bydd mewnbwn y Pennaeth a'r Llywodraethwyr yn allweddol. Nodwyd y bydda dyraniad digonol i ganiatau Rheolwr safle ac athro yn Dinas Mawddwy. Nodwyd y bydda angen gweithredu canran y dyraniad yn ofalus.

Cyfeiriwyd at y ffaith y bydda unrhyw aelod o staff a oedd yn wynebu toriad cyflog yn derbyn gwarchodaeth cyflog am 3 blynedd.

*Gofynnwyd faint o lywodraethwyr bydd ar gorff llywodraethol yr ysgol ardal newydd? Bydd yr ysgol ardal yn gwasanaethu'r pedair ardal a bydd angen sicrhau cynrychiolaeth gyfartal.*

Hwn yw'r ysgol ardal aml-safle cyntaf yng Ngwynedd felly nid oes ateb parod. Mae nifer disgyblion ysgol yn nodi nifer y llywodraethwyr a ni fydd nifer yr ysgol yma'n taro'r hicyn sydd yn caniatáu mwy o lywodraethwyr. Serch hynny cadarnhawyd nad oes ateb pendant gan yr Awdurdod ar hyn o bryd, a nodwyd y bydda angen ystyriaeth bellach i ganran a chynrychiolaeth ar y corff llywodraethu newydd. Cadarnhawyd y byddai'r pwynt yn cael ei ymchwilio iddo ymhellach er mwyn darparu ymateb llawn.

*Beth fyddai'n digwydd petai niferoedd plant yn disgyn?*

Petai niferoedd plant yn disgyn o dan 15 mae risg posib y bydda'r ysgol dim ond yn gallu cyflogi Rheolwr Safle a chymhorthydd.

*A fyddai'r Awdurdod yn ystyried dulliau gwyrdd er mwyn cynhesu'r ysgol? Mae costau gwresogi uchel yn yr ysgol. (Nodwyd awydd i gael paneli solar gan fod rhywfaint o'r to yn gwynebu'r de)*

Nododd Richard Farmer y byddai'n edrych i mewn i'r cais yma.

*Beth fydd yn digwydd os bydd unrhyw oedi yn y broses?*

Nodwyd na fyddai'r cynlluniau ar gyfer safle Brithdir yn ymyrryd ar fywyd nag addysg y disgyblion. Trafodwyd os bydda'r gwelliannau a fwriedir ar safle Dinas Mawddwy yn rhedeg ar ôl amser byddai'n bosib defnyddio safle Ieuan Gwynedd neu Machreth dros dro. Datgelwyd na ragwelir oedi yn yr amserlen ar hyn o bryd.

*Oes arian ar gyfer y cynllun, oes unrhyw warant ei fod ar gael?*

Nodwyd fod yr arian yn ei le i wireddu'r cynnig petai'n cael ei gymeradwyo. Mae £1.65miliwn o arian y Cyngor wedi clustnodi yn barod i wneud yn siŵr bod dim oedi yn y rhan yma o'r dalgylch. Mewn ardaloedd eraill roedd rhaid rhoi cais i Llywodraeth Cymru am arian ond mae llai o arian ar gael i gymharu â'r gorffennol. Mae cyfle i roi cais ariannol nawr ond ni fydd cyfle arall am 6 mlynedd. Roedd rhaid dewis un ai oedi a rhoi cais am arian i adeiladu ysgol gwbl newydd neu weithredu gydag arian oedd gan y Cyngor a gwneud datblygiad fforddiadwy. Penderfynwyd nad oedd yn bosib oedi yn yr ardal yma oherwydd niferoedd bregus y plant.

*Sut mae ysgol ardal am weithio ar lefel ymarferol?*

Nodwyd gyda sicrwydd na fydda unrhyw gynlluniau i gludo plant yn ôl ac ymlaen o'r ddau safle yn rheolaidd, dim ond gyda gweithgareddau penodol. Gweledigaeth y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu fydda trefnu amserlen a llunio rhaglen weithredu ymarferol ar gyfer y ddau safle.

*Sut mae'r Cyngor yn bwriadu ceisio cadw niferoedd plant yn gynaliadwy yr ardal (h.y. drwy greu cyfleon cyflogaeth a datblygiadau economaidd)?*

Nodwyd fod y Cyngor yn ymwybodol o'r angen i greu cyfleon cyflogaeth yn yr ardal ac i geisio hybu datblygiadau economaidd.

*Nodwyd efallai gellid datblygu cynllun mwy cynnil yn Brithdir a gwneud fwy o ddefnydd o'r adnoddau sydd eisoes yn Dinas Mawddwy?*

Nodwyd dylai'r ddau safle gael yr adnoddau priodol.

*Nodwyd nad gwynebu newid mae'r staff sydd yn y 4 ysgol, ond gwynebu colli swydd.*

Nodwyd y byddai'r cyfleon cyntaf am swyddi yn cael eu rhoi i'r staff presennol, ond cydnabuwyd fod rhai staff am golli swyddi ac nad ydi hyn yn sefyllfa braf.

*Ble fydd Pennaeth yr ysgol ardal wedi ei leoli?*

Brithdir fydd y prif leoliad gwaith, ond yn amlwg bydd teithio rheolaidd rhwng y ddau safle.

*Gofynnwyd faint o lywodraethwyr bydd ar gorff llywodraethol yr ysgol ardal newydd? Bydd yr ysgol ardal yn gwasanaethu'r pedair ardal a bydd angen sicrhau cynrychiolaeth gyfartal.*

Hwn yw'r ysgol ardal aml-safle cyntaf yng Ngwynedd felly nid oes ateb parod. Mae nifer disgyblion ysgol yn nodi nifer y llywodraethwyr a ni fydd nifer yr ysgol yma'n taro'r hicyn sydd yn caniatáu mwy o lywodraethwyr. Serch hynny cadarnhawyd nad oes ateb pendant gan yr Awdurdod ar hyn o bryd, a nodwyd y bydda angen ystyriaeth bellach i ganran a chynrychiolaeth ar y corff llywodraethu newydd. Cadarnhawyd y byddai'r pwynt yn cael ei ymchwilio iddo ymhellach er mwyn darparu ymateb llawn.

Atgoffwyd mai cynllun cysyniadol yw'r rhai a gyflwynwyd a byddai cyfle i grŵp defnyddwyr yn cynnwys staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol rhoi mewnbwn wrth ddatblygu'r dyluniad terfynol.

Nodwyd bod materion staff wedi eu trafod gyda staff yr ysgol yn y cyfarfod blaenorol a bod swyddogion personél y Cyngor wedi rhoi cyflwyniad byr iddynt.

Diolchodd Dewi Jones i'r llywodraethwyr am fynychu ac am eu sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL RHIENI YSGOL DINAS MAWDDWY 6:00, 3 TACHWEDD 2011

8 o rieni yn bresennol.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate – Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Richard Farmer – Rheolwr Prosiect Uned Eiddo, Hefin Owen – Rheolwr Cyllid Datblygu, Judith Jones – Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Richard Farmer wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir, yn ogystal â'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer safle Dinas Mawddwy.

**Sylwadau a Cwestiynau**

*Gofynnwyd a oes gan rieni sydd yn byw yn ardal Dinas Mawddwy hawl i anfon eu plant i ysgol safle Brithdir, yn enwedig pan fo niferoedd isel o fewn blwyddyn, fel fod disgyblion yn cael bod mewn dosbarth o faint rhesymol.*

Nodwyd bydda rhaid iddo fod yn ystyriaeth ac y bydda rhaid cael canllawiau clir ar gyfer ymateb a gweithredu ar geisiadau o'r fath. Eglurwyd mai penderfyniad y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu fyddai yn y bôn.

*Codwyd pryderon am gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu newydd.*

Nodwyd y bydda rhaid i'r gynrychiolaeth fod yn deg i bob ardal berthnasol.

*Codwyd pryderon am y tro i mewn i Brithdir oddi ar y brif ffordd, sef yr A470.*

Nodwyd fod gan Llywodraeth Cymru gynlluniau arfaethedig i wella'r ffordd rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes. Dangoswyd cynlluniau arfaethedig Llywodraeth Cymru

*Beth fydd capasiti'r ysgol newydd? Sut bydd yr ysgol yn rheoli mynediad? Sut fydd y Cyngor yn sicrhau na fydd yr ysgol ardal newydd yn mynd dros gapasiti?*

Bydd rhaid gweithredu'r Polisi Mynediad yn llawer mwy caeth.

*Beth sy'n digwydd i blant Brithdir pan fo'r ysgol yn cael ei ddatblygu?*

Ni fydd y datblygiad newydd yn amharu ar yr ysgol bresennol.

*A fydd y plant yn cael eu tywys o un safle ysgol i'r llall yn rheolaidd?*

Na, ni fyddai hyn yn ymarferol nac yn ddymunol, ond bydd angen manteisio ar y cyfleon mae cyd-weithio yn ei gynnig.

*Beth sy'n digwydd i'r ysgolion yn nhref Dolgellau?*

Nodwyd fod cynnig arfaethedig i greu Cymuned Ddysgu Gydol Oes ar ddau safle gan addasu ac uwchraddio'r ysgol gynradd fel fod plant Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a 2 ar un safle.

*Beth fydd yn digwydd i nifer staff Dinas Mawddwy os fydd niferoedd plant yn parhau i ddisgyn?*

Gall nifer staff ddisgyn i Reolwr safle a chymhorthydd yn unig petai niferoedd plant yn disgyn o dan 15

*Beth ydi'r oblygiadau ymarferol o gyd-weithio a rhannu arbenigeddau staff?*

Nodwyd mai gweledigaeth y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu fydd trefnu amserlen a llunio rhaglen weithredu ymarferol ar gyfer cyd-weithio a rhannu arbenigeddau staff rhwng y ddau safle. Nodwyd hefyd fod trefniadau cyd-weithio eisoes mewn lle rhwng ysgolion Corris a Pennal a bod y trefniadau yn gweithio'n dda.

*Ydi'r mwyafrif o'r gweithgareddau ar y cyd am ddigwydd ar safle Brithdir?*

Bydd gofyn i'r Pennaeth gadw cydbwysedd ar gyfer gweithgareddau ar y cyd

*Beth ydi'r hicyn ar gyfer gwarchod safle Dinas Mawddwy os bydd nifer uchel o blant yn neud cais i gael mynychu safle Brithdir - yn enwedig o ystyried fod buddsoddiad o £100,000 am gael ei wneud ar safle Dinas Mawddwy?*

Yn sgil derbyn y lwfans aml-safle bydd Dinas Mawddwy yn derbyn mwy o warchodaeth ariannol nag ydy ar hyn o bryd drwy dderbyn y warchodaeth lleiafswm staffio. Ni fydd yr ysgol ardal aml-safle dan anfantais o gael dau safle. Bydd y lwfans yma yn gwarchod safle Dinas Mawddwy yn fwy na'i sefyllfa bresennol, ond os bydd niferoedd disgyblion yn disgyn o dan 15 gall arwain at newid yn y strwythur staffio, sef gostwng i reolwr safle a chymhorthydd.

*A fydd cynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu yn cael ei weithredu ar sail cynrychiolaeth gyfrannol?*

Bydd rhaid iddo gael cynrychiolaeth deg ac mae rheolau cyfreithiol caeth i'w dilyn wrth lunio Corff Llywodraethu newydd. Serch hynny cadarnhawyd nad oes ateb pendant gan yr Awdurdod ar hyn o bryd, a nodwyd y bydda angen ystyriaeth bellach i ganran a chynrychiolaeth ar y corff llywodraethu newydd. Cadarnhawyd y byddai'r pwynt yn cael ei ymchwilio iddo ymhellach er mwyn darparu ymateb llawn.

*Nodwyd pryder y gall Dinas Mawddwy gael llai o gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu a all arwain at annhegwch.*

Nodwyd y byddai arolygiadau (e.e. gan Estyn) yn gweithio tuag at sicrhau nad oes unrhyw annhegwch tuag at Dinas Mawddwy

*Ar ba safle fydd Gweithgareddau megis Sioeau Nadolig yn cael eu cynnal?*

Nodwyd y bydda penderfyniadau fel hyn angen ystyriaeth gan y pennaeth a'r Corff Llywodraethu.

*Os bydd rhiant yn gwneud cais i anfon eu plentyn/plant i safle Brithdir, one eu bod yn byw yn agosach i safle Dinas Mawddwy pwy fydd cymeradwyo'r cais? Gall nifer o rieni ffafrio danfon eu plant i safle Brithdir a bydda*

*hyn yn tanseilio sefyllfa Dinas Mawddwy ymhellach. Beth fyddai'r drefn o ran trafnidiaeth petai hyn yn digwydd?*

Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu fydd yn gwneud y penderfyniad i gymeradwyo'r cais a'i pheidio – ond mae angen edrych i mewn i'r sefyllfa yma mewn mwy o fanylder.

*A fydd y swydd ddisgrifiadau yn datgan lleoliad gwaith?*

Bydd angen nodi safle gwaith yn y swydd ddisgrifiad.

Atgoffwyd mai cynllun cysyniadol yw'r rhai a gyflwynwyd a byddai cyfle i grŵp defnyddwyr yn cynnwys staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol rhoi mewnbwn wrth ddatblygu'r dyluniad terfynol.

Diolchodd Dewi Jones I pawb am fynychu ac am eu sylwadau.

# Atodiad 2.3

# Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Machreth 07-11-11

# CYFARFOD STATUDOL STAFF YSGOL MACHRETH 4:00, 7 TACHWEDD 2011

4 o staff yn bresennol yn cynnwys y pennaeth, staff dysgu a staff ategol. Roedd cynrychiolaeth Esgobaeth Bangor hefyd yn bresennol.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng. Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Iwan Evans – Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol, Sandra Evans - Uwch Swyddog Personél, Gwenno Williams - Rheolwr Glanhau, Gofal ac Arlwyo, Guto Rhys Huws – Aelod Tîm Ad-drefnu Ysgolion, Gwenan Jones-Parry - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad oedd yn cynnwys tri rhan. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir. Cyflwynodd Sandra Evans wybodaeth ar faterion personél, yn cynnwys y cymorth sydd ar gael i staff yn ystod y broses.

**Trafodaeth Agored - Sylwadau a Cwestiynau**

*Gofynnwyd os byddai swyddi'r ysgol ardal yn cael eu cadw i'r staff presennol?*

Atebwyd bod staff yr ysgolion dan sylw (dysgu ac ategol) yn cael y cynnig cyntaf ond bydd gan y corff llywodraethol hawl i hysbysebu'n lletach wedyn.

*Gofynnwyd am union nifer staff yn yr ysgol ardal - 1 pennaeth yn Brithdir a phennaeth safle yn Dinas Mawddwy?*

Rhagwelir bydd 3 aelod o staff dysgu yn Brithdir (cynnwys pennaeth) a 2 yn Dinas Mawddwy (cynnwys pennaeth safle) ond corff llywodraethol bydd yn penderfynu'n union.

*Pryder am ddanfon plant yn y safle newydd, lle yn union fydd tacsi/bws yn gollwng y plant?*

Bydd plant yn cael eu danfon oddi ar y ffordd fawr. Darlun yn y cyflwyniad wedi dangos enghraifft o un syniad man parcio a man gollwng ond yn bendant bydd oddi ar y ffordd fawr.

*Ydi arolygiad Estyn wedi ei ystyried yn ystod y broses? Mae'r addysg yn Machreth yn ardderchog, sydd yn cael ei ddangos o graddau yr arolygiad diwethaf.*

Nid yw'r Awdurdod yn poeni am ansawdd addysg yn yr ysgolion dan sylw. Mae'r pedwar ysgol wedi derbyn lefelau da o ganlyniad yr arolygiad Estyn diwethaf. Ysgol Machreth wedi cael 5 lefel 1 sydd yn ardderchog. Mae hyn yn meddwl bydd gan lywodraethwyr yr ysgol staff o'r ansawdd gorau i ddewis wrth cyflogi, golyga hyn ansawdd addysg uchel yn yr ysgol ardal.

*Nodwyd mai ansawdd addysg plant sydd yn bwysig nid cyflwr adeilad.*

Cytunwyd mai addysg plant sydd yn bwysig a nodwyd mai sefydlu sefydliad addysgol cadarn cynaliadwy i'r dyfodol yw nod y cynnig.

*Gofynnwyd beth fydd yn digwydd i'r cynnig petai'r niferoedd yn disgyn. Efallai bydd rhieni ddim yn danfon eu plant i'r ysgol ardal.*

Mae rhaid i'r Awdurdod adeiladu a chynllunio ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd yn bresennol yn y pedwar ysgol yn 2013 gyda 10% ychwanegol. Mae canllawiau penodol bydd rhaid dilyn. Fel rheol, gydag adeilad newydd mae twf mewn niferoedd yn hytrach na lleihad. Ddim yn bosib rhagweld penderfyniadau rhieni a rhaid cofio bod llawer o symud yn y dalgylch yma i gymharu â dalgylchoedd eraill y Sir. Os byddai'r Cyngor am greu cynnig diogel yn ariannol yn unig byddai'n symud holl blant y wlad i'r dref a chreu un ysgol fawr drefol. Dim hyn sydd dan sylw, y gobaith yw ceisio cynnal opsiwn addysg wledig wrth ei ganoli ym Mrithdir. Mae pryderon mawr ynglŷn â niferoedd yn ardal yma'r dalgylch a gall un teulu yn symud o un o'r ysgolion bach gwneud niwed pellach i gynaladwyedd yr ysgol. Dim yn gallu fforddio oedi, rhaid gweithredu nawr cyn i'r niferoedd waethygu.

*Atebwyd aelod o'r gynulleidfa bod sefyllfa Ysgol Machreth nawr yn gadarn gyda phennaeth parhaol a bod un teulu yn symud i'r pentref yn gallu gwneud effaith cadarnhaol yn yr un modd gall un teulu gadael cael effaith negyddol.*

Rhaid i'r Cyngor gweithredu ar niferoedd presennol a'r gwir yw bod 16 o blant gyda 7 yn unig yn byw yn nalgylch Ysgol Machreth. Ail nodwyd bod y Cyngor yn ceisio diogelu'r addysg wledig wrth fuddsoddi yn yr ardal.

*Nododd y gynulleidfa bod un plentyn newydd symud i'r pentref, golyga hyn bod 8 o'r 16 yn byw yn y pentref.*

*Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa am plant yn teithio, bydd unrhyw ddarpariaeth ar gael?*

Bydd cludiant am ddim yn cael ei gynnig yn unol â'r polisi cludiant. Bydd disgyblion sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Machreth a dros 2 filltir o safle Brithdir yn derbyn cludiant am ddim. Ynglŷn â'r trefniant presennol, dealltwriaeth y Cyngor yw bod disgyblion uwchradd yn teithio i'r ysgol ar fws ar hyd ffordd i Ddolgellau a bod bws mawr cyhoeddus yn teithio ar hyd y ffordd i Bontnewydd (o dan yr pont bwa). Mae'r ddwy ffordd yn opsiwn i gludo'r plant i Frithdir os gaiff y cynnig ei gymeradwyo. Efallai tacsi neu fws mini fydd yn cael ei defnyddio yn seiliedig ar niferoedd heddiw. Trefniant gyda chludiant yw mynd allan i dendr a chael cwmnïau lleol argymell pa lwybr teithio i ddilyn yn ddibynnol ar eu hargymhellion ac arbenigedd. Nid yw'n bosib cadarnhau'r llwybr nawr ond bydd cludiant pendant yn cael ei gynnig yn unol â'r polisi cludiant.

*Gofynnwyd faint yn fwy mewn niferoedd byddai rhaid i'r ysgol ardal fynd i alluogi cyflogi pedwar athro ar safle Brithdir? Rhaid gwneud yn siŵr bod yr adeilad digon mawr i alluogi hyn.*

Atebwyd bod ffigwr nifer pendant ddim ar gael ond oddeutu 100 o blant fyddai'n galluogi pedwar athro. Cyllid yr ysgol yn dibynnu'n llwyr ar niferoedd disgyblion a phenderfyniad y llywodraethwyr bydd sut yn union i'w wario. Mae'n bosibilrwydd byddai'r ysgol yn gallu denu o grant cyfnod sylfaen a chael hanner swydd byddai'n galluogi pedwar dosbarth yn y bore a tri yn y prynhawn. Dibynnol ar y corff llywodraethol a niferoedd.

Atgoffwyd pawb i gyflwyno sylwadau a nodwyd efallai byddai'r staff eisiau ysgrifennu gyda'i gilydd i fynegi ei barn.

Diolchodd Dewi Jones i bawb am fynychu ac am y sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL LLYWODRAETHWYR YSGOL MACHRETH 5:00, 7 TACHWEDD 2011

11 o lywodraethwyr yn bresennol yn cynnwys Aelod Lleol, pennaeth, aelodau staff yr ysgol a chynrychiolaeth Esgobaeth Bangor.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Cadeirydd y llywodraethwyr yn croesawu pawb. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg: Cyng. Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Iwan Evans – Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol, Guto Rhys Huws – Aelod Tîm Ad-drefnu Ysgolion, Gwenan Jones-Parry - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir.

Yn ystod y cyflwyniad derbyniwyd rhai cwestiynau:

*Yn seiliedig ar yr agwedd gymuned, i ba hyd fydd gweithgareddau yn y gymuned yn cael ei sicrhau?*

Rhan o'r asesiad annibynnol ar effaith cymunedol oedd rhestru mesurau gall y Cyngor ei weithredu i liniaru'r effaith negyddol bydd cau ysgol yn cael ar y gymuned. Os gaiff y cynnig ei weithredu bydd rhaid i'r Cyngor wedyn ystyried yn ofalus a phenderfynu pa rhai o'r mesurau yma bydd angen ei weithredu.

*Sut gall y cynnig creu effaith positif? Iaith yn gryf yma'n barod.*

Fel rhan o'r asesiad cafodd holiadur ei lenwi oedd yn asesu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a +6 cadarnhaol oedd canlyniad y cynnig yma (sefydlu ysgol ardal aml-safle). Os byddai'r Cyngor wedi dewis sefydlu Ysgol Gydol Oes yn Nolgellau oedd yn cau ysgolion gwledig yr ardal ni fyddai effaith cadarnhaol yn cael ei weld. Gafodd y casgliad cadarnhaol ei wneud oherwydd bod yr ysgol ardal yn creu un man sydd yn rhoi llawer o blant cefndir Cymraeg at ei gilydd.

*Soniwyd bod darpariaeth Eglwysig yn cael ei ddarparu yn Ysgol Cynradd Dolgellau ond mae trafodaethau i greu Ysgol Gydol Oes. Beth am y dyfodol? Oes sicrwydd bydd y ddarpariaeth Eglwysig yn parhau? Dogfen ymgynghorol yn nodi ar hyn o bryd bod y ddarpariaeth yno dim yn crybwyll y dyfodol.*

Mae trafodaethau yn parhau gyda'r trefniadau yn nhref Dolgellau, dim yn gallu rhagdybio beth fydd canlyniad y trafodaethau. Cytunodd cynrychiolwr Esgobaeth Bangor bod trafodaethau yn digwydd a'i fod yn rhan ohonynt. Ychwanegodd ei fod yn hyderus y bydd darpariaeth Eglwysig yn Dolgellau ar ddiwedd y broses.

**Trafodaeth Agored - Sylwadau a Cwestiynau**

*Gofynnwyd sut aeth y drafodaeth o fodelau yn PAD 4 i drafodaeth yn PAD 5 o fodel oedd yn cau Ysgol Machreth? Mae gohirio'r drafodaeth yn Gorllewin y dalgylch wedi creu problemau mawr, nid yw'n deg ar yr holl ysgolion. Rhieni wedi anesmwytho a sefyllfa'r ysgol yn mynd yn fregus, wedi colli pennaeth ond wedi glanio ar ein traed gyda'r pennaeth newydd felly nid yw sefyllfa'r pennaeth yn rheswm dros ad-drefnu'r ysgol ddim mwy. Mae amseriad y trafodaethau yn Mai 2011 wrth drafod cau'r ysgol wedi bod yn newidiol iawn. Corff llywodraethol a rhieni Ysgol Machreth wedi bod yn gyson a cadarn bod ddim awydd cau'r ysgol. Dim eisiau i blant Machreth gwasgaru i wahanol ysgolion a theimlad yw bod y 6 ysgol wledig heb gael ystyriaeth deg (dim yn cynnwys Dinas Mawddwy a Friog). Ddylai bod yr holl ardal wledig yn cael ystyriaeth.*

Atebwyd bod problem adnabod safle yn Gorllewin y dalgylch wedi bod yn gohirio trafodaethau yn y dalgylch cyfan. Gafodd penderfyniad ei wneud i fwrw ymlaen gyda thrafodaethau Dwyrain y dalgylch oherwydd sefyllfa fregus yr ardal ynglŷn â niferoedd disgyblion. Byddai'n anodd iawn gwneud y dalgylch cyfan ar unwaith. Awdurdod yn derbyn y sylw ac yn gofyn i chi mynegi hyn mewn gohebiaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori.

*Nodwyd bod y corff llywodraethol wedi cwrdd rhwng cyfarfodydd PAD 5 a PAD 6 a bod cofnodion y cyfarfod yna wedi ei rhoi i'r Awdurdod ac yn nodi'r pryderon yma ynglŷn â thrafod hanner y dalgylch.*

*Tudalen 18 y ddogfen ymgynghorol nodwyd bod £1.6miliwn o arian cyfalaf i wneud y newidiadau yn Brithdir. Beth am y model cydweithio, a chostau cynnal a chadw, pam ni allai'r Cyngor sicrhau buddsoddiad i ysgolion unigol? Pam ddim rhoi chwarter y £1.6miliwn i Machreth i'w gynnal i'r dyfodol?*

Noda'r ddogfen (tudalen 6 pwynt 5.5.3) bod costau addasu ac atgyweirio'r tair ysgol dan sylw yn £2.3miliwn. Nid oes ffigyrau ysgolion unigol ond o gof Ysgol Machreth oedd rhataf ond dim o lawer. Mae'r arian cyfalaf wedi clustnodi  er mwyn datblygu sefydliad addysgol gwledig cadarn i'r dyfodol, nid i gadw'r sefydliadau presennol heb newid. Dim arian i gynnal a chadw yn unig sydd dan sylw ond i addasu'r adeiladau i gyrraedd gofynion ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Os bydd ysgol yn cael ei gadw gan y Cyngor am 50 i 100 mlynedd nesaf rhaid iddo gael nodweddion sydd yn cyd-fynd a strategaeth y Cyngor, yn cynnwys neuadd a man chwarae cyfnod allweddol priodol.

Pan gaiff dalgylch ei ad-drefnu'r gobaith yw bod pob ysgol yn cael ei adael mewn sefyllfa gadarn a chynaliadwy. Nod y Cyngor yw gwneud gwahaniaeth ym mhob dalgylch.

*Nodwyd mai addysg yn Ysgol Machreth yw'r gorau yn ôl y tabl arolygiad Estyn.*

Nid oes pryderon safon addysg yr ysgolion dan sylw, mae addysg ardderchog yn cael ei gynnal. Os gaiff y cynnig ei weithredu bydd gan y corff llywodraethol llawer o athrawon da i ddewis rhwng wrth benodi gan fod staff yr ysgolion presennol yn cael cynnig cyntaf y swyddi. Llawer o ysgolion bach yn dibynnu ar unigolion i redeg yr ysgol ac mae colli'r unigolyn yn gallu cael effaith niweidiol iawn. Gyda sefydliad mwy mae llai o risg tymor hir gan fod nifer o athrawon i redeg yr ysgol.

*Bydd y model yn cael ei ail ystyried os bydd sefyllfa Dinas Mawddwy yn mynd yn fwy bregus? Efallai bydd niferoedd yn mynd yn llai, beth fydd yn digwydd wedyn?*

Byddai'r ysgol ardal yn derbyn lwfans aml-safle  fyddai'n cryfhau'r sefyllfa. Heddiw os byddai'n disgyn o dan 15 o ddisgyblion byddai'n derbyn gwarchodaeth staffio i dalu am gymhorthydd a phrifathro. Mae'r cynnig yma'n ceisio gwarantu addysg ar safle Dinas Mawddwy sydd yn risg i'r Cyngor. Nid yw'n bosib rhagweld niferoedd ysgolion i'r dyfodol pell yn enwedig wrth sôn am y dalgylch yma sydd gyda nifer uchel o symud o fewn y dalgylch. Bydd yn sialens i'r corff llywodraethol newydd reoli'r ddau safle er mwyn buddiannau plant.

Y corff llywodraethol sydd yn rhedeg yr ysgol, llawer o benderfyniadau yn nwylo'r llywodraethwyr. Ni fydd y corff llywodraethol yn gallu gwneud newid sylweddol (e.e. cau un safle) heb drafodaeth fanwl gyda'r Awdurdod. Bydd gan y corff llywodraethol cyfrifoldeb cyfartal dros y ddau safle.

*Nodwyd bod demograffeg cymuned yn amrywio, niferoedd yn codi a gostwng. Mae problem mewnlifiad yn yr ardal. Rhai pobl sydd yn byw yn Dolgellau a gyrru eu plant i Machreth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Nid yw'r ffigyrau all dalgylch yn cyfleu hyn. Dim yn gallu dweud bod dim am godi a nodwyd byddai colli'r ysgol yn ergyd mawr i'r gymuned.*

Nodwyd bod y cynnig yma'n  creu sefydliad addysg gadarn ar gyfer y dyfodol ond nid yw'n bosib gwneud hyn ym mhob pentref. Os gaiff y cynnig ei gymeradwyo bydd rhaid cael trafodaeth bellach ar fesurau i liniaru'r effaith ar y gymuned. Yn Tywyn a Berwyn mae'r Cyngor wedi defnyddio swyddog adfywio bro i gynorthwyo'r cymunedau, er enghraifft gydag ôl-ddefnydd adeiladau.

*Nododd un o'r gynulleidfa fod dau fater pwysig rhaid i'r Cyngor rhoi sylw i os gaiff y cynnig ei wireddu 1) sut bydd teuluoedd ifanc yn cael ei denu i'r gymuned 2) cadw'r iaith Gymraeg yn gryf.*

Ymatebwyd bod y cynnig am gael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod sefyllfa heddiw yn rhoi argraff bod patrwm wedi datblygu ers blynyddoedd o nifer isel o deuluoedd ifanc, sydd yn cael ei adlewyrchu gyda 8 disgybl yr ysgol yn byw yn nalgylch Ysgol Machreth. Rhaid cofio mai'r datrysiad hawdd byddai canoli'r addysg gynradd yn Dolgellau ond ceisio cadw'r opsiwn gwledig sydd yn y cynnig dan sylw. Rhaid gweithio ar realiti'r sefyllfa heddiw. Mae llawer o enghreifftiau ar hyd y Sir o gymunedau cryf heb ysgol ynddi. Cytunwyd bydd cau ysgol yn cael effaith ar y gymuned ac yn parchu'r safbwynt. Heb newid y sefyllfa bresennol mae'n bosib o fewn ychydig flynyddoedd bydd llithriad o ddisgyblion o'r ysgol a bydd yr ysgol yn cau ei hun. Hyn wedi digwydd i ysgolion eraill ac yn sefyllfa hoffa'r Cyngor osgoi.

*Nododd y gynulleidfa mai realiti'r cynnig yma yw bod cymunedau Dinas Mawddwy a Brithdir am gefnogi a chymunedau Llanfachreth a Rhydymain am wrthwynebu.*

Gofynnwyd i'r gynulleidfa os lleoliad yr ysgol wledig yn hytrach na sefydlu ysgol ardal sydd yn cael ei gwrthwynebu.

*Yr opsiwn gorau, os oes rhaid newid a chau, byddai creu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn ardal Bontnewydd sydd yn ganolog cymuned, byddai hyn yn trin y cymunedau'n cyfartal a teg.*

Eglurwyd mai cefndir ariannol sydd yn nadu hyn. Cais arian heb fynd i Llywodraeth Cymru i ariannu'r datblygiad, Cyngor wedi clustnodi'r arian ac wedi blaenoriaethu. Ysgol newydd mynd i gostio oddeutu £3.5miliwn a doedd y Cyngor ddim yn gallu fforddio hyn. Yr opsiynau oedd, oedi a rhoi cais am arian i'r Llywodraeth a risgio niferoedd disgyblion mynd yn waeth, neu weithredu opsiwn llai costus. Dewis oedd gweithredu nawr a sefydlogi addysg wledig yr ardal.

*Nodwyd bod lleoliad Brithdir ddim yn naturiol i ddisgyblion presennol, dim llawer yn byw yn y cyfeiriad. Pryderon yn codi  ynglŷn â'r bont gul wrth ymyl safle Brithdir.*

Ymatebwyd bod 84% o'r plant dan sylw yn byw yn nes i Frithdir na safleoedd eraill (tudalen 27 y ddogfen ymgynghorol). Mae mesurau yn cael ei wneud yn safle Brithdir i wella'r ffordd yno a bydd y ffordd rhwng Dinas Mawddwy a Brithdir yn cael ei wella gan Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd nesaf. Ymatebwyd bod y troad o'r A470 i Frithdir yn cael ei wella fel rhan o gynlluniau'r Llywodraeth ond nid yw'r bont yn cael ei newid. Bydd mynediad a man parcio yn yr ysgol yn cael ei wneud o'r newydd.

*Nodwyd gan un aelod o'r gynulleidfa fod dim gwahaniaeth rhwng y ffyrdd i Frithdir a'r ffyrdd i Lanfachreth. Niferoedd disgyblion yn newid dros y blynyddoedd. Nododd un aelod bod ganddo bedwar o blant wedi*

*addysgu yn Ysgol Machreth a pan ddechreuodd yr hynaf 9 o ddisgyblion oedd yn yr ysgol, pan orffennodd y ieuengaf oedd 37 yn yr ysgol. Nodwyd bod ffeithiau yn gallu cyfleu unrhyw agwedd.*

Ymatebwyd bod tudalen 21 y ddogfen statudol yn dangos niferoedd disgyblion ers 1975, cynnydd yn Brithdir a gostyngiad yn y tair ysgol arall.

Nodwyd bod materion staff wedi eu trafod gyda staff yr ysgol yn y cyfarfod blaenorol a bod swyddogion personél y Cyngor wedi rhoi cyflwyniad byr iddynt.

Atgoffwyd am y cyfle i ymateb i'r cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod sylwadau llywodraethwyr eisoes wedi derbyn rhwng cyfarfodydd PAD 5 a 6 ond nawr yw'r cyfnod statudol i dderbyn sylwadau a phwysleisiwyd pwysigrwydd derbyn sylwadau yn ystod y cyfnod.

Nodwyd byddai'r cofnodion yn cael ei yrru i'r pennaeth allu rhoi sylwadau cyn iddynt gael eu cynnwys yn yr adroddiadau i'r cylch democrataidd y Cyngor.

*Derbyniwyd i'w dderbyn cyn 15-11-11* – cytunwyd i'r cais yma.

Diolchodd Dewi Jones i'r llywodraethwyr am fynychu ac am eu sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL RHIENI YSGOL MACHRETH 6:00, 7 TACHWEDD 2011

17 o rieni yn bresennol, pennaeth, aelod staff yr ysgol a chynrychiolaeth Esgobaeth Bangor.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng. Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Iwan Evans – Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol, Guto Rhys Huws – Aelod Tîm Ad-drefnu Ysgolion, Gwenan Jones-Parry - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir.

**Trafodaeth Agored - Cyflwyno'r Cynnig**

Nodwyd byddai cofnodion y cyfarfod yn rhan o'r pecyn i gynghorwyr y Sir.

*Gofynnwyd a oes rhaid dewis i blant fynd i Dinas Mawddwy neu Brithdir?*

Eglurwyd byddai disgyblion y dalgylch yn mynychu safle Brithdir. Ail safle'r ysgol ardal bydd Dinas Mawddwy a disgwylir i ddisgyblion sydd yn byw yn agosach ato fynychu'r safle yna.

*Gofynnwyd a yw'r cynnig yn bendant o gael ei weithredu.*

Atebwyd mai cynnig yn unig sydd dan sylw ac nid yw'n bendant. Yn ganol cyfnod ymgynghori statudol ar hyn o bryd, yn dilyn y cyfnod bydd adroddiadau i gylch democrataidd y Cyngor. Os bydd Cyngor yn penderfynu (ar 15 Rhagfyr 2011) i gymeradwyo'r cynnig bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi yn Ionawr. Cyfnod o fis i dderbyn gwrthwynebiadau, os dderbynnir unrhyw wrthwynebiad gaiff y cynnig ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru wneud y penderfyniad terfynol. Gall Llywodraeth Cymru cymryd hyd at 7 mis i benderfynu. Nodwyd bod cais ariannol wedi ei wneud i'r Llywodraeth am ddalgylchoedd eraill (Tywyn a Y Berwyn) ond nid oes ansicrwydd arian yn y cynnig yma. Ymrwymiad gan y Cyngor i ariannu'r cynnig.

*Gofynnwyd a yw'r arian yn cynnwys newidiadau i'r lon yn Brithdir. Nodwyd pryderon ynglŷn â'r bont gul.*

Atebwyd bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r newid i'r A470 yn Cross Foxes a hyn i ddechrau yn 2012. Fel rhan o'r cynnig bydd mynediad safle Brithdir yn cael ei wella, lon tu allan i'r ysgol yn cael ei sythu a mesurau arafu traffig fel cyfyngiad cyflymder o 30 neu 20 yn cael ei weithredu. Os gaiff y cynnig ei weithredu efallai bydd rhaid ystyried y bont ymhellach.

*Nodwyd pryderon ynglŷn â'r dewis o safle. Pam ddim dewis safle Llanfachreth fel y prif safle? Ffordd yn addas i fws, cae wrth ymyl yr ysgol ar werth.*

Gafodd Machreth ystyriaeth gychwynnol ond penderfynwyd yn erbyn oherwydd y rhwydwaith ffyrdd a lleoliad daearyddol. Awdurdod yn ddeall bod disgyblion uwchradd yn teithio ar fws i'r ysgol ar hyd y ffordd i Ddolgellau a bod bws yn rhedeg ar y ffordd i Bontnewydd. Yn y cynnig presennol mae gofyn i 8 plant deithio ar hyd y ffyrdd i safle Brithdir. Os byddai'r safle yn Llanfachreth bydd gofyn i 78 o blant teithio ar hyd y ffyrdd. Mae hyn dipyn o wahaniaeth mewn nifer o gerbydau. Nid yw'r rhwydwaith ffyrdd i gyd yn addas i'r cynnydd traffig.

*Bydd bws yn cael ei ddarparu i'r disgyblion? Wrth sôn am draffig ar benwythnos mae Llanfachreth yn llawn o bobl sydd yn cerdded y wlad, ffyrdd ddim yn rhwystr iddynt ddod yma. Hefyd nodwyd bod amdaith os bydd lon yn cau i Lanfachreth yn cymryd tri munud, os fydd y lon i Dinas Mawddwy yn cau mae'r amdaith yn anferth.*

Yn seiliedig ar niferoedd heddiw (pennaeth wedi cadarnhau 8 disgybl sydd yn byw yn y dalgylch) debygol mai tacsi bydd yn cael ei gynnig. Ni fydd plant yn mynd yn ddyddiol i Dinas Mawddwy, dim ond ar achlysuron arbennig fydd y plant yn teithio i Dinas Mawddwy.

*Gofynnwyd beth yw barn pobl pentref Brithdir?*

Atebwyd eu bod yn coresawy'r cynnig. Cytunwyd bod y ffordd yn heriol a bydd yn gwella wrth i'r Cyngor drafod lleihau'r problemau, a Llywodraeth Cymru yn gwella'r troad o'r A470. Derbyniwyd bod hyn yn bwynt o bryder.

*Pam bod y pedwar ysgol yma'n cael ei ad-drefnu'n unig? Pam ddim yr ardal Gorllewin hefyd?*

Atebwyd mai'r bwriad oedd ad-drefnu'r dalgylch cyfan ond roedd problemau darganfod safle yn y Gorllewin. Roedd diffyg safle'n gohirio trafodaeth y dalgylch cyfan. Penderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r ardal yma oherwydd pryder niferoedd disgyblion. Nifer o resymau pam bod disgyblion yn symud dalgylchoedd, os oedi efallai byddai'r plant yn mynd i'r dref ac ysgolion yn cau ei hunain. Cynnig yn cymryd y cyfle i gynllunio addysg wledig Cymraeg cref i'r dyfodol. Mae risg i'r cynnig oherwydd niferoedd yr ardal ond mae'r Cyngor eisiau ceisio gwarchod addysg wledig.

*Amserlen yn dangos ysgol ar agor Medi 2013, bydd bob dim yn barod?*

Rhagweld cyfnod adeiladu o 9-12mis sy'n golygu byddai angen bod ar y safle ar y cynharaf Medi 2012. Bydd proses cynllunio ac ymgynghori yn digwydd cyn hyn, does dim rheswm ar hyn o bryd i feddwl bydd ddim yn bosib.

*Os gaiff y cynnig ei wrthod beth yw 'plan B'? Os bydd y Cynulliad yn gwrthod bydd y cais yn cael ei orfodi gan y Cyngor?*

Nid oes 'plan B' gan y Cyngor. Roedd nifer o fodelau yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfodydd PAD, bydd rhaid ail edrych arnynt. Doedd dim un o'r modelau yn sefyll allan mwy na'r lleill. Os gaiff y cynnig ei wrthod gan Llywodraeth Cymru nid oes hawl gan y Cyngor i orfodi'r cynnig.

*Pam ddim rhannu'r arian clustnodwyd rhwng yr ysgolion?*

Ateb tymor byr bydd hynny yn unig. Mae strategaeth addysg y Cyngor yn anelu i gael addysg gadarn at y dyfodol ardraws y Sir. Mae'r cynnig yma yn ateb cadarn hir dymor.

*Byddai pawb yn hapus os fyddai'r dalgylch cyfan yn cael ei ad-drefnu.*

Wrth ad-drefnu dalgylch y nod yw gadael strwythur addysg gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol. Mae addewid i ddod yn nol yn syth wedi'r etholiad i ad-drefnu Gorllewin y dalgylch. Rhesymau dros ad-

drefnu hanner y dalgylch wedi cael ei egluro. Mae'r cynnig o fewn ffiniau posib. Arian y Cyngor sydd yn ariannu'r cynnig, does dim cais ariannol wedi ei rhoi i Llywodraeth Cymru. Cyngor wedi clustnodi £3.4 miliwn i ad-drefnu Dwyrain a thref Dolgellau, Cyngor wedi blaenoriaethu.

*Pwy sydd yn gallu gwrthwynebu'r cynnig?*

Gaiff unrhyw un wrthwynebu a dim ond angen un gwrthwynebiad i drosglwyddo'r cynnig i Llywodraeth Cymru yn Gaerdydd i gael penderfyniad.

*Ysgol yma wedi ei ddewis gan rhai oherwydd bod maint dosbarthiadau'n uchel yn llefydd eraill. Mwy o addysg un i un yn Ysgol Machreth gan fod maint dosbarthiadau bychain.*

Mae'n wir bod maint dosbarthiadau yn gallu cael effaith gwahanol. Strategaeth y cyngor yw cael maint dosbarthiadau rhwng 12-25. Rhaid cofio gall dosbarthiadau bach ddim fod yn ddymunol i bob plentyn, gall orfodi plant 7 oed fod ymysg llawer o blant hyn. Nid yw hyn bob amser y sefyllfa gorau i rhai plant. Er enghraifft, ar un flwyddyn yn Ysgol Croesor oedd 12 o ddisgyblion ond bechgyn yn unig.

*Nododd aelod o'r gynulleidfa bod Ysgol Machreth, ers Medi 2011, yn cydweithio gydag Ysgol Ieuan Gwynedd ac mae'n gwneud lles i'r holl blant. Effaith positif iawn mewn cyfnod byr.*

Gafodd hyn ei gydnabod a nodwyd bod hyn yn gweithio'n dda gyda rhai ysgolion ond bod yn seiliedig ar gydweithrediad y corff llywodraethol ac aelodau o staff.

*Nodwyd bod addysg Machreth yn iawn gan Estyn.*

Nid oes unrhyw bryderon gan yr awdurdod ynglŷn â safon addysg yr ysgolion dan sylw.

*Gaiff Brithdir ei ymestyn a ni fydd pobl eisiau mynd a'i plant yno oherwydd bod ganddynt awydd cael ysgol fach fel Machreth. Bydd yr ysgolion bach, sef dewis y rhieni, i gyd wedi cau. Hefyd nodwyd eu bod eisiau ysgol Cymraeg.*

Ail nodwyd bod maint dosbarthiadau optimwm rhwng 12-25. Estyn yn cytuno â hyn. Asesiad iaith yn dangos bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol wrth ddod a charfan plant Cymraeg iaith gyntaf at ei gilydd.

*Hyn ddim yn wir am yr iaith yn Ysgol Cynradd Dolgellau.*

Cydnabyddir bod ysgol y dref a gwlad yn wahanol ond nifer disgyblion y wlad yn creu risg. Ysgol dan sylw yn llai na 100 o blant, llai na Ysgol Cynradd Dolgellau.

*Nodwyd bod 40% o blant Dinas Mawddwy yn Gymraeg a bod poblogaeth Rhydymain a Llanfachreth yn debycach.*

Y gobaith yw cryfhau Dinas Mawddwy o ran niferoedd a sefyllfa wrth weithredu'r cynnig.

*Os oes diffyg lle yn Brithdir bydd y plentyn yn mynd i Ddolgellau?*

Na - fydd digon o le. Cynllunio'r ysgol ar gyfer rhagamcanion 2013 (hyn o bryd 78) a 10% yn ychwanegol. Nifer o blant Brithdir yn all-dalgylch ond rhaid cynllunio amdanynt. Byddai polisi mynediad y Sir yn cael ei weithredu.

*Ansawdd addysg ac ethos Machreth yn dda. Beth fydd ethos yr ysgol ardal?*

Cyfle i'r ardal gyfan cryfhau'r ysgolion, corff llywodraethol fydd yn creu'r ethos gyda'r staff. Pwysig cofio hyn wrth benodi pennaeth. Sefydlu ethos cadarn o'r cychwyn cyntaf.

*Nododd y gynulleidfa bydd gwreiddiau mewn ardal a dim pentref.*

*Ni fydd yr ysgol ardal yn ysgol Eglwysig Cymraeg bydd y ddarpariaeth yna'n cael ei golli.*

Bydd Ysgol Cynradd Dolgellau yn darparu addysg Eglwysig yn yr ardal. Mae polisi iaith y Cyngor yn weithredol yn Cynradd Dolgellau fel pob ysgol yn y Sir.

*Ydi posibilrwydd o ddisgyblion Llanfachreth yn mynd i Ganllwyd ac Ieuan Gwynedd i Lanuwchllyn wedi ei ystyried?*

Nid yw'n bosib rhagweld beth fydd rhieni yn ei wneud, mae nifer o ystyriaethau wrth ddewis ysgol. Efallai bydd delwedd ysgol ardal wledig yn denu plant o'r dref ond bydd y polisi mynediad yn cael ei weithredu, fel yn bob ysgol arall y Sir.

*Nodwyd bod ffigyrau rhagolygon yn anghywir. Mae'r Ysgol newydd wedi selio ar y ffigyrau yma.*

Atebwyd bod ffigyrau'r rhagolygon yn cael ei gyflwyno gan yr ysgolion ei hunain. Nifer o blant yr ysgol ardal wedi ei selio ar ragolygon 2013 gyda 10% yn ychwanegol (yn unol â rheolau Llywodraeth Cymru).

*Nododd y gynulleidfa bod ad-drefnu wedi cael effaith negyddol ar ffigyrau'r ysgol. Rhieni yn poeni a ddim yn dod a'u plant. Niferoedd yr ysgol yn newid o un flwyddyn i'r llall a gall pobl allanol dod i mewn a gwneud gwahaniaeth mawr ond gydag ad-drefnu ar y gorwel ni fydd hy yn digwydd. Ysgol yn bodoli ers 1847. Ddylai pobl Llanfachreth cael rhywbeth am eu trethi, a beth sydd yn well na thalu cyflogau'r ddau athro? Ysgol yw'r peth gorau i wario arno.*

Atebwyd bod cymuned yn bwysig ond addysg plant yw'r flaenoriaeth. Rhaid cynllunio i gynnal addysg i'r dyfodol.

*Beth fydd yn digwydd i'r adeilad? Pwy yw'r perchennog?*

Mae gan y Cyngor polisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion. Mae cynnig cyntaf defnydd yr adeilad yn cael ei rhoi i'r gymuned. Swyddog Adfywio Bro yn rhoi cymorth i'r gymuned datblygu syniadau o ddefnyddio'r adeilad. Ychwanegodd cynrychiolwr Esgobaeth Bangor bod yr Eglwys yn berchennog rhan o'r adeilad a Cyngor y rhan arall. Dogfen gyfreithiol 1945 petai'r ysgol ddim yn cael ei ddefnyddio am addysg mae'r trosglwyddo i ymddiriedolwyr pwyllgor lleol. Rhain yn gofalu ar ran esgobaeth Bangor a'r gred yw byddai'r Awdurdod a'r gymuned yn cydweithio i weithredu'r polisi ol-ddefnydd.

*Beth fydd yn digwydd os bydd yr ymddiriedolwyr yn dewis gwerthu'r safle?*

Bydd cyfle cyntaf i'w brynu yn cael ei rhoi i'r gymuned. Bydd y broses yn cael ei wneud wrth gydweithio gyda'r gymuned.

*Lle mae'r arian i addasu Brithdir yn dod?*

Cyngor wedi ymrwymo i dalu am yr addasiadau.

*Beth fydd yn digwydd i'r staff? Bydd diswyddiadau? Bydd gwarchodaeth i'r penaethiaid? Un swydd pennaeth fydd i bedwar pennaeth presennol, bydd gwarchodaeth ariannol iddynt?*

Staff wedi derbyn cyflwyniad yn gynharach ac wedi cael cyfle i siarad gyda swyddogion personél y Cyngor. Mae'r pedwar ysgol yn cau a holl staff yn cael ei diswyddo ond bydd staff yr ysgolion dan sylw yn cael cynnig cyntaf swyddi yr ysgol ardal. Os bydd pennaeth ar hyn o bryd yn cael er enghraifft swydd athro, bydd cyflog lefel pennaeth yn cael ei ddiogelu am dair blynedd.

*Gofynnwyd beth fydd y gynrychiolaeth ar y corff llywodraethol? Pwy fydd yn penderfynu'r aelodau? Nodwyd bod cael y corff llywodraethu gorau posib yn allweddol cywir. Oes gan yr Awdurdod rheolaeth dros y corff? Nodwyd yn gryf ni ddylai'r niferoedd plant meddwl bod Brithdir yn cael mwy o gynrychiolaeth.*

Dangoswyd gwybodaeth am ddewisiadau maint y corff llywodraethol, gallu cael rhwng 9-17 aelod gyda gwahanol nifer o gynrychiolaeth rhieni/gymuned/staff. Awgrymwyd byddai'n well dewis yr opsiwn sydd yn rhoi cynrychiolaeth deg i'r pedwar cymuned. Bydd yn gorff llywodraethol i'r pedwar cymuned. Nid yw'r Awdurdod yn gallu rhagdybio'r strwythur ond byddai'n bosib cyfethol cynrychiolaeth y pedwar cymuned. Bydd corff llywodraethol cysgodol yn cael ei chreu ymhell cyn i'r ysgol ardal oherwydd yr angen i benodi staff a bydd yr Awdurdod yn cychwyn ei chreu. Mae deddf benodol i'w ddilyn wrth greu corff llywodraethol, bydd gan yr Awdurdod ychydig ddylanwad ar y corff yn unig. Nodwyd os oes gan y gynulleidfa sylwadau am strwythur y corff ddylai hyn cael ei gynnwys mewn ymateb i'r ymgynghoriad, byddai Cyngor yn falch o gael arweiniad y cymunedau ar hyn. Derbyniwyd y sylw am niferoedd a chynrychiolaeth Brithdir ac ail ddywedwyd, os yw'r pwynt yma'n creu pryder i gyfleu hyn wrth ymateb yn ysgrifenedig.

*Effaith negyddol iawn ar ddigwyddiadau yn y pentref.*

Nid oes rhaid i'r digwyddiadau yn y pentref dod i ben. Gall y sioe Nadolig cael ei symud o bentref i bentref o flwyddyn i flwyddyn. Ni all yr Awdurdod gwarantu hyn ond fydd yn rhan o ethos a phenderfyniadau'r corff llywodraethol.

*Nododd y gynulleidfa bod yn hawdd anghofio'r cymunedau/pentrefi heb safle ymhen 10 mlynedd.*

*Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa, os yw'r ddau fodel cysyniadol (traddodiadol a modern) wedi cael ei brisio? Bydd model modern llawer drytach na'r model traddodiadol. Rhoddwyd yr argraff byddai'r model traddodiadol yn gyfaddawd. Bydd disgyblion yn rhan o'r broses dylunio? Beth am brynu'r tir, oes trefniadau wedi gwneud?*

Bydd y ddau ddatblygiad yn cwrdd â safonau uchel ac mae'r ddau wedi'w gostio, y fersiwn modern sydd rataf o hanner can mil. Does dim dadl heno am y dyluniad gorau, bydd llawer o ymgynghori i wneud cyn cyrraedd y dyluniad terfynol, a bydd disgyblion yn allweddol i'r trafodaethau. Mae rhai syniadau derbyniwyd gan ddisgyblion yn ystod ymgynghori ar ysgol newydd yn Caernarfon wedi ei rhoi yn yr adeilad. Cynllun cysyniadol yn unig yw'r rhai ddangoswyd - 'artist impression'. Ynglŷn â'r tir mae cytundeb cyfreithiol yn ei le sydd yn galluogi'r Cyngor prynu'r tir unrhyw bryd yn y 5 mlynedd nesaf petai ei angen.

Nodwyd am gludiant bod tymor cyntaf, os ddefnyddiwyd bws, yn mynd i gael goruchwyliwr a bydd gwregysau diogelwch arnynt.

*Gynulleidfa'n gobeithio nid bws fydd yn cael ei ddefnyddio. Bydd goruchwylwyr yn yr ysgol wrth ddanfon plant yn safle Brithdir? Dim yn gallu disgwyl i blant mynd syth o'r cerbydau i'r fynedfa heb oruchwyliwr.*

Bydd llwybr o'r man gollwng i'r fynedfa a bydd iechyd a diogelwch y plant brig yr ystyriaethau wrth wneud y datblygiad. Ychwanegwyd bod manylion union drefniant y cludiant ddim ar gael ar hyn o bryd oherwydd trefniant y Sir yw mynd i dendr gyda chwmnïau a gadael iddyn nhw benderfynu'r llwybr teithio, yn ddibynnol ar leoliad byw'r disgyblion a'i arbenigedd yn y maes.

*Gofynnwyd a byddai rhieni'n gallu rhoi eu barn ar y llwybr teithio i'r ysgol?*

Bydd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad ond does dim ateb nawr gan fyddai'n ddibynnol ar union leoliad disgyblion a'r llwybr teithio.

*Gofynnwyd beth yw arbedion ariannol y cynllun?*

Nodwyd bod tudalen 24 y ddogfen ymgynghorol yn egluro'r cyllid yn llawn - £180,000 o arbediad o gau ddau safle a bod cludiant am gostio oddeutu £48,000 felly arbedion o £132,000. Nodwyd mai dim arian yw pwynt pwysicaf y cynllun.

*Pam ddim ffedereiddio'r ysgolion a gwario'r £132,000 ar y safleoedd i wneud costau rhedeg yr adeiladau yn llai.*

Nid oes arbedion wrth ffedereiddio a ni fydd gwahaniaeth addysgol yn yr ardal. Nodwyd er gwybodaeth mai'r Cyngor sydd yn cynnal a chadw'r adeiladau nid arian yr ysgolion.

*Bydd gwariant ar yr ysgol ardal newydd yn mynd dros y 'budget' a ni fydd arbediad yn y diwedd.*

Atgoffwyd mai £132,000 refeniw (sef bob blwyddyn) yw arbedion y cynllun. Ail nodwyd mai un ffactor yn unig yw'r arian. Bydd yr arbediad refeniw yn cael ei gadw ar gyfer addysg.

*Gofynnwyd faint o swyddi fyddai ar gael yn yr ysgol ardal?*

Bydd cyllid i ariannu cyfwerth â 5 swydd llawn amser (cynnwys pennaeth), rhagwelir 2 yn Ninas Mawddwy a 3 yn Brithdir. Efallai bydd posib gyda'r plant meithrin cael hanner swydd ychwanegol, hyn yn ddibynnol ar strwythur staffio'r corff llywodraethol.

*Nodwyd bydd gwrthwynebiadau i'r cynnig yn amlwg, felly faint o amser bydd y Cynulliad yn cymryd i benderfynu?*

Gall Llywodraeth Cymru gymryd hyd at saith mis.

*Derbyniwyd cais i wybod yn syth beth yw canlyniad yr ymgynghoriad ac os bydd y rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi yn Ionawr.*

Cytunwyd i roi gwybod i'r pennaeth yn dilyn cyfarfod Cyngor Llawn 15 Rhagfyr.

Nodwyd efallai byddai'r rhieni gydag awydd i ysgrifennu gyda'i gilydd i ymateb i'r ymgynghoriad yn ychwanegol i ysgrifennu'n unigol. Nodwyd bod trafodaeth fel hyn ddim yn hawdd ond gorau i ddisgyblion sydd gan bawb dan sylw.

Diolchodd Dewi Jones i'r rhieni am fynychu ac am eu sylwadau.

# Atodiad 2.4

# Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Ieuan Gwynedd 09-11-11

# CYFARFOD STATUDOL STAFF YSGOL IEUAN GWYNEDD 4:00, 9 TACHWEDD 2011

7 o staff yn bresennol yn cynnwys y pennaeth, staff dysgu a staff ategol.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng. Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Sandra Evans - Uwch Swyddog Personél, Gwenno Williams - Rheolwr Glanhau, Gofal ac Arlwyo, Gwenan Jones-Parry - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad oedd yn cynnwys tri rhan. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir. Cyflwynodd Sandra Evans wybodaeth ar faterion personél, yn cynnwys y cymorth sydd ar gael i staff yn ystod y broses.

*Yn ganol y cyflwyniad nodwyd bod 5 disgybl all-ddalgylch nid 6.*

**Trafodaeth Agored - Sylwadau a Cwestiynau**

*Nododd aelod o'r gynulleidfa nad oedd neb eisiau parhau gyda'r sefyllfa bresennol, a bod angen dod a phlant yr ardal at ei gilydd. Nodwyd mai safle'r ysgol ardal yw'r broblem. Gofynnwyd beth yw amcan gost y datblygiad?*

Nodwyd bod adroddiad Bwrdd y Cyngor yn edrych yn fanylach ar gostau'r datblygiad. Cost addasu Brithdir yn £1.65 miliwn a chost addasu Ieuan Gwynedd yn £1.05 miliwn. Cydnabuwyd bod gwahaniaeth sylweddol ond bod ffactorau eraill wedi eu hystyried yn ogystal wrth ddewis safle.

*Rhestrwyd nodweddion sydd ei angen yn Brithdir, a nodwyd bod y mwyafrif o'r rhain yn bresennol ar safle Ieuan Gwynedd yn barod. Dim angen gymaint o wario yn Ieuan Gwynedd. Brithdir gydag iard fach, dim yn bosib chwarae pêl droed arni, a lleoliad sydd yn ddi-haul (Ieuan Gwynedd yn wynebu'r haul). Defnydd cae chwarae Brithdir yn gyfyng i'r Haf. Cynllun cornel natur, ardal chwarae feddal a chae chwarae glaswellt yn Ieuan Gwynedd eisoes. Ieuan Gwynedd wedi derbyn grant addasu'r ardal cyfnod sylfaen. Pryder mwyaf yw'r troad yn y ffordd wrth ymyl safle Brithdir. Rhyfedd ac annerbyniol gwario arian ychwanegol yn Brithdir ar bethau sydd yn bodoli yn Ieuan Gwynedd. Nodwyd bod teimlad gyffredinol yn derbyn aberthu ysgolion am ysgol a safle hollol newydd ond opsiwn addasu Brithdir yn hollol anghyfleus a gwastraff arian. Hwn yw teimlad cyffredinol y staff.*

Nodwyd bod y staff yn cyfleu eu barn yn glir a deallwyd mai'r dewis o safle sydd yn cael ei wrthwynebu ac nid y cynnig o greu ysgol ardal.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa bod y Cyngor yn gwastraffu arian a'r bwriad yw arbed arian.*

Nid arbed arian yw'r unig ffactor dan sylw. Os mai arbed arian oedd y flaenoriaeth byddai un ysgol gynradd fawr yn cael ei greu yn nhref Dolgellau. Cynllun yma'n cynnwys buddsoddiad sylweddol i

gynnal addysg wledig yn yr ardal. Rhaid cofio ffactorau eraill wrth ddewis safle, bod un ysgol yn orlawn a phellter o safleoedd Dinas Mawddwy.

*Nodwyd gan y gynulleidfa bod dyfodol plant yn gallu cael ei leoli yn Rhydymain. Cyngor yn dweud bod Brithdir i Dinas Mawddwy yn 8 milltir a Dinas Mawddwy i Glantwymyn yn 7.5 milltir. Gall rhai plant Dinas Mawddwy (ardal Llanymawddwy) mynd i Ysgol Llanuwchllyn. Gofynnwyd a fydd plant neu staff yn teithio i Dinas Mawddwy?*

Nodwyd mai'r corff llywodraethol bydd yn penderfynu ond ni ragwelir bydd disgyblion yn symud o un safle i llall yn rheolaidd, dim ond ar gyfer gweithgareddau achlysurol.

*Efallai ni fydd dyfodol pell i Dinas Mawddwy yn y cynnig, oes camarwain gyda hyn?*

Nodwyd bod cadw Dinas Mawddwy yn risg a bod y Cyngor yn cydnabod hyn. Cyngor yn buddsoddi arian ei hun i gynnal addysg wledig yr ardal.

*Cytunwyd bod angen addysg wledig yn yr ardal. Dim yn deall y ddadl am leoli'r prif safle yn Brithdir. Natur ysgol Gymreig yn bodoli yn Ieuan Gwynedd - 100% o blant yn siarad Cymraeg yn y buarth, nid yw hyn yn wir am Frithdir. Brithdir yn orlawn oherwydd mai Brithdir a Llanelltyd yw'r opsiynau addysg wledig agosaf i dref Dolgellau.*

Atebwyd bod yr ysgol ardal yn creu cyfle i'r pennaeth a staff sefydlu ethos Cymraeg cadarn o'r cychwyn cyntaf. Os oes patrwm iaith yn bodoli sydd angen ei newid mewn ysgol gynradd mae ad-drefnu'r ardal yn gyfle i dorri ar y patrwm a sefydlu trefn newydd.

*Does dim dadl yn erbyn y datblygiad, datblygiad yn cael ei dderbyn ond anodd iawn derbyn Brithdir fel y safle pan mae'r cyfleusterau ar gael yn Ieuan Gwynedd am gost sylweddol is. Mae cryfderau cynllunio a nodweddion fel parcio ac iechyd a diogelwch safle oddi ar y ffordd fawr o fewn pentref o blaid Ieuan Gwynedd. Pan fydd staff yn gweithio gyda'r nos mae golau stryd yn Ieuan Gwynedd ond safle Brithdir yn ganol coed mewn twyllwch gydag un tŷ wrth ei ymyl. Nid yw'r safle mor addas. Ieuan Gwynedd yn perthyn i bentref ac yn gallu cynnal gweithgareddau yn y gymuned wrth gerdded hyd lwybr troed i'r neuadd bentref. Dim llwybr troed i'r neuadd nac yr Eglwys yn Brithdir ac mae'r ffordd yn cael ei ddefnyddio gan bawb.*

Nodwyd bod hwn yw'r drydydd dalgylch i gael ei ad-drefnu a bod profiad o Tywyn wedi dangos bod gwir angen dewis safle cyn mynd i ymgynghori. Yn yr achlysur yma mae safle wedi ei adnabod fel bod pawb yn gallu rhoi eu barn ar y safle. Penderfyniad terfynol ar ddiwedd y broses. Nodwyd bod troad yn y ffordd yn cael ei wella.

*Codwyd pryderon bod y ffordd am gael fwy o ddefnydd wedi gwella'r troad.*

*Ar wahân i'r dewis safle mae gan staff bryderon am eu swyddi.*

Nodwyd bod hyn yn ddealladwy a bod cyfle i drafod gyda swyddogion personél yn dilyn y cyfarfod.

*Diolch wedi ei wneud i'r Cynghorwr lleol yn y wasg ond eisiau nodi bod y cynghorwr lleol heb ymweld ag Ysgol Ieuan Gwynedd o gwbl - nid oes trafodaeth wedi bod gyda'r ardal yma.*

*Mae uned addysg arbennig yn bodoli yn Ieuan Gwynedd, a fydd y ddarpariaeth yma yn trosglwyddo i Frithdir?*

Bydd adeilad newydd Brithdir yn cyrraedd safonau adeiladu ac yn cydymffurfio gyda gofynion 'DDA' . Bydd y ddarpariaeth ar gyfer darparu addysg i ddisgyblion awtistig yn cael ei gynnal yn Ysgol Cynradd Dolgellau. Mae addasiadau yn cael ei wneud i ddatblygu safle'r cynradd (rhoi'r ysgol ar un safle) a bydd y ddarpariaeth awtistig yn cael ei ddatblygu yno.

*Bydd symud y ddarpariaeth addysg arbennig i Ddolgellau yn ychwanegu at amser teithio'r plentyn.*

Cyn addasu Ieuan Gwynedd byddai'r disgybl wedi gorfod mynd yn all-Sirol am ei addysg. Mae Tŷ Aran yn Dolgellau yn cael ei ddatblygu i wneud defnydd o'r arbenigedd mewn un lle ac mae'n bosib fydd pobl yn croesawu hyn. Ysgol Pendalar wedi ei adeiladu o'r newydd i ardal Arfon a chais ariannol yn cael ei wneud i Llywodraeth Cymru i gael Ysgol debyg i Feirion a Dwyfor. Mae'r cynllun yma a chynllun Cynradd Dolgellau yn dangos bod addysg arbennig yn cael ystyriaeth.

*Gofynnwyd a yw'r gost o £1.65 yn cyfri'r cae chwarae a bob dim gafodd ei ddangos yn y cynllun cysyniadol yn y cyflwyniad?*

Atebwyd bod y costau yn cyfrif bob dim - cae chwarae, addasiadau i'r ffordd, adeilad newydd, man parcio a mynediad newydd.

*Nodwyd ei bod yn anodd credu bod £1.05 miliwn ei angen i addasu Ieuan Gwynedd.*

Byddai rhaid gwneud addasiadau yn Ieuan Gwynedd i dderbyn dwbl y nifer mae'r ysgol yn gallu derbyn yn bresennol. Gofynion Llywodraeth Cymru yw bod angen 160m$^2$ o le er mwyn 80/90 o ddisgyblion. Ieuan Gwynedd angen estyniad o270m$^2$ (Brithdir 345m$^2$). Angen estyniad sylweddol yn y ddau.

Atgoffwyd pawb i gyflwyno sylwadau a nodwyd efallai byddai'r staff eisiau ysgrifennu gyda'i gilydd i fynegi ei barn.

*Nododd aelod o'r gynulleidfa bod y staff ddim yn gwrthod newid ond yn gwrthod y dewis o safle.*

Diolchodd Dewi Jones i bawb am fynychu ac am y sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL LLYWODRAETHWYR YSGOL IEUAN GWYNEDD 5:00, 9 TACHWEDD 2011

11 o lywodraethwyr yn bresennol yn cynnwys pennaeth ac aelodau staff yr ysgol.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Cadeirydd y llywodraethwyr yn croesawu pawb. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg: Cyng. Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Iwan Evans – Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol, Gwenan Jones-Parry - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad sydyn mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir.

**Trafodaeth Agored - Sylwadau a Cwestiynau**

*Nodwyd bod y llywodraethwyr i gyd wedi siomi gyda'r dewis o Brithdir fel prif safle'r ysgol ardal. I weld wrth ddewis bod cryfderau Ieuan Gwynedd i gyd wedi ei anwybyddu. Adroddiad Bwrdd y Cyngor yn canmol Ieuan Gwynedd wrth nodi byddai'n rhatach a rhwyddach i addasu Ieuan Gwynedd, a wedyn dewiswyd safle Brithdir. Siomedigaeth fawr o hyn. Darllenwyd pwynt 2.2.4 "Nodwyd rhai o rinweddau safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd o ran ei maint a bod cost datblygu'r safle yn is" a darllenwyd pwynt 2.2.11 "Mae'n amlwg byddai datblygu ar safle Ysgol Ieuan Gwynedd yn rhatach ac yn rhwyddach".*

Nodwyd bod hyn yn bwynt cywir, o'r ochr datblygu mae safle Ieuan Gwynedd yn rhatach a rhwyddach i'w ddatblygu ond bod ffactorau eraill wedi ei ystyried hefyd sydd wedi cloriannu yn erbyn y ffactorau eiddo. Ymhelaethwyd bod yr ymgynghoriad yn Bro Dysynni wedi ei feirniadu oherwydd diffyg dewis safle cyn ymgynghori. Penderfynwyd dewis safle cyn ymgynghori yn yr ardal, gan gydnabod y bydda gwrthwynebu i ba bynnag safle fyddai'n cael ei argymell. Ystyriaethau eraill ar wahân i'r ffactorau technegol wedi bod o blaid Brithdir. Ffactor pwysig iawn yw bod 84% o ddisgyblion yr ardaloedd dan sylw yn byw yn agosach i safle Brithdir na Ieuan Gwynedd. Rhwydwaith ffyrdd yn ystyriaeth arall a'i bellter o safle Dinas Mawddwy. Anodd cynllunio am y 50+ blynyddoedd nesaf ond Brithdir i weld yn ganolog ac yn safle fyddai'n hyfyw i'r dyfodol. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, a nodwyd pwysigrwydd cyflwyno sylwadau a barn ar y safle wrth ymateb i'r ymgynghoriad statudol.

*Nodwyd bod trigolion Dolgellau, Penllyn, a Bala wedi rhyfeddu bod Ieuan Gwynedd wedi ei anwybyddu. Mae'r pwynt am amseroedd teithio disgyblion Dinas Mawddwy yn gamarweiniol oherwydd maent yn cymryd 25 munud wrth fynd ar fws heb fynd y ffordd uniongyrchol.*

Nodwyd bod y pwynt amser teithio wedi ei godi yn cyfarfod rhieni Dinas Mawddwy a bod cadarnhad cywirdeb y ffaith yma wedi ei dderbyn.

*Staff bydd yn teithio i DM? Oes disgwyl i Dinas Mawddwy cael ei gynnal neu bydd cau'r safle yma a chludo plant dros y bwlch i Frithdir?*

Derbyn bod cynnal Dinas Mawddwy yn risg ond awydd cryf ei gadw oherwydd ei fod yn gwasanaethu ardal mor eang. Risg yw cynnal ysgol ardal, ateb heb risg byddai gwneud un ysgol fawr yn nhref Dolgellau. Yn seiliedig ar niferoedd mae'n beryg oedi, gall un teulu symud o ardal meddwl bod niferoedd mor fregus bod ysgol yn cau. Os gaiff newid ddim ei wneud nawr, bydd yr ardal yn colli eu cyfle.

*Plant oedd fod i ddechrau ddim am ddechrau mewn ysgol sydd dan fygythiad o gau, hyn yn effeithio'r niferoedd.*

Hyn yn bwynt teg ac yn bwynt mewn trafodaeth ad-drefnu unrhyw ysgol. Ffigyrau yn anwastad mewn ysgolion gwledig , yr ysgol wedi cael 34 ar y mwyaf a 14 ar y lleiaf ers 1975.

*Ieuan Gwynedd ddim yn colli plant i ysgol arall, bob plentyn sydd yn byw yn y dalgylch yn mynychu. Rhai disgyblion sydd yn byw yn Brithdir yn mynd yn all-ddalgylch am addysg. Nodwyd bod barn Cynghorydd lleol wedi ei gymryd wrth ddewis safle, nid yw'r cynghorydd wedi siarad â'r ardal yma. Rhai pobl ifanc eisiau dod yn ôl i Ieuan Gwynedd oherwydd bod gwreiddiau yma.*

Nodwyd bod pwynt am ddisgyblion y dalgylch i gyd yn mynychu'r ysgol yn hollol gywir.

*Nodwyd gall ysgol newydd yn Brithdir effeithio Ysgol Cynradd Dolgellau. Mae rhieni wastad eisiau addysg wledig, bydd digon o le yn Brithdir?*

Mae'n rhan o'r trafodaethau i uwchraddio Ysgol Gynradd Dolgellau. Rhagolygon 2013 yn nodi bydd 78 ar safle Brithdir a bydd y safle yn dal 85/90 o ddisgyblion. Pwysig cofio bod mwy o symud rhwng dalgylchoedd cynradd yn Y Gader na gweddill Gwynedd. Bydd digon o le yn yr ysgol ardal.

*Tair ysgol ochr draw y dyffryn yn llawn. Os yw Brithdir yn cau bydd pobl yn dod a'u plant i Ieuan Gwynedd am addysg wledig.*

Nodwyd bod gan Ieuan Gwynedd digon o capasiti nawr i gymryd disgyblion ond nid yw hyn yn digwydd. Am ba bynnag rheswm mae cynnydd wedi bod yn Brithdir yn unig.

Deallwyd bod gwrthwynebiad i'r safle dewiswyd ond oes sylwadau ar agweddau eraill?

*Pwynt 2.2.5 yn sôn am gyswllt Brithdir gyda darpariaeth feithrin, ond meithrinfa breifat yw Seren Fach nid ysgol feithrin. Ni ddylai hyn fod yn ystyriaeth.*

Nodwyd mai lleoliad Brithdir yn agos i'r feithrinfa sydd yn cael ei nodi fel cryfder. Trafodwyd 'SWOTs' (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) safleoedd Brithdir a Ieuan Gwynedd yn y panel adolygu dalgylch a codwyd lleoliad meithrinfa Seren Fach fel cryfder. Nid yw'r pwyntiau cyflawn yn y ddogfen ymgynghori oherwydd crynodeb o brif bwyntiau bob agwedd sydd ynddo. Adroddiad Bwrdd mis Hydref sydd yn ystyried holl bwyntiau'r safleoedd ac ar gael yn y pecynnau cefndirol neu ar gais gan y tîm ad-drefnu.

*Yn y papur ymgynghorol, yn pwynt 3.3.3 lle gaiff niferoedd all-dalgylch ei gymharu, ffigwr Ieuan Gwynedd yn groes i'r lleill, dylai dweud bod 100% o ddisgyblion sydd yn byw yn y dalgylch yn mynychu'r ysgol yn hytrach na "daeth 37% o'r disgyblion o tu allan i ddalgylch naturiol yr ysgol". Nid oedd yn gyson gyda pwyntiau all-ddalgylch yr ysgolion eraill.*

Nodwyd hyn ond nid yw'r pwynt yma ar ben ei hun wedi effeithio penderfyniad y safle. Gwir yw bod un ysgol dros ei chapasiti a'r ysgol arall llawer o dan y capasiti, a'r mwyafrif o blant yn byw yn nes i un safle. Nid yw'r awdurdod yn anghytuno am y pwyntiau a godwyd ynglŷn â'r adeiladau.

*Nodwyd bod dau gynghorydd wedi eu diolch yn y wasg am eu mewnbwn ond nid yw'r un o'r ddau wedi bod i Rhydymain. Ni ddisgwylir un ond mae'n siomedig bod dim cyswllt wedi bod.*

*Yn y cyflwyniad dangoswyd llun gyda llefydd parcio. Ddim yn edrych bod digon o lefydd parcio i rieni danfon/nol plant.*

Atgoffwyd mai cynllun cysyniadol a gyflwynwyd a byddai cyfle i grŵp defnyddwyr yn cynnwys staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol rhoi mewnbwn wrth ddatblygu'r dyluniad terfynol.

Lle bynnag bydd y safle bydd yr ysgol yn gwasanaethu ardal a bydd cynrychiolaeth o Rhydymain ar y corff llywodraethol. Mae cyfle i ddylanwadu a bod yn rhan o'r drafodaeth.

*Ysgol Ieuan Gwynedd yn rhan o'r gymuned ac yn gwneud defnydd o'r capel a'r neuadd bentref. Mae capasiti o 45 yn yr ysgol sydd wedi ei leoli yn y pentref. Beth fydd maint y neuadd yn yr ysgol ardal i gymharu â'r un yn Rhydymain? Bydd angen defnyddio neuadd bentref Brithdir - ydi hwn ddigon mawr?*

Cytunwyd bod neuadd ysgol Rhydymain yn ardderchog. Bydd neuadd yr ysgol newydd yn cwrdd gofynion Llywodraeth Cymru. Bydd y neuadd ddigon mawr i dal 80-100 o blant ond dim i ddal 2/3 o aelodau teulu hefyd. Nid yw neuadd ysgol yn cael ei ddylunio ar sail achlysuron sydd yn digwydd unwaith neu ddwy mewn blwyddyn. Bydd angen trefnu un neu ddau o berfformiadau er mwyn rhoi cyfle i'r holl rieni gael mynychu, sydd yn digwydd mewn ysgolion ar draws Gwynedd.

*Bydd y neuadd yn cael mwy a mwy o ddefnydd gyda'r angen i gynnal ti a fi, bore coffi a mwy - bydd angen neuadd fawr.*

Nid oes rheswm i beidio cynnal rhai gweithgareddau mewn cymunedau gwahanol.

*Nodwyd bod cludiant yn anodd i Llanfachreth a bod ysgol ardal wedi ei greu yn Glantwymyn i wasanaethu ardal eang ond yn Glantwymyn ei hun yn unig mae'r gweithgareddau yn cael eu cynnal.*

Atebwyd mai dewis nhw yw hyn a bod yn gyfle i'r cymunedau sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod ethos yr ysgol yn sicrhau gweithgareddau yn y bedair gymuned. Corff llywodraethol a staff yr ysgol yn hanfodol i sicrhau hyn.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa nad yw'n hapus i'r pedwar ardal fod mewn cystadleuaeth gyda'i gilydd wrth drefnu digwyddiadau a boreau coffi.*

Bydd hyn yn fater i weledigaeth y corff llywodraethol. Eglurwyd bydd corff llywodraethol cysgodol yn cael ei sefydlu gan yr Awdurdod i alluogi cyflogi pennaeth a staff. Wedyn bydd y corff yn cymryd cyfrifoldeb dros ei hun a pan agorir yr ysgol bydd rhaid creu ac ethol aelodau'r corff llywodraethol yn unol â'r polisi arferol. Bydd gan y corff gynrychiolaeth eang. Nodwyd byddai unrhyw sylwadau ar ffurf y corff yn cael eu croesawu a bod posib i gael rhwng 9-17 o aelodau arno. Gall y Sir ddylunio safle a chreu'r cyfleusterau ond y corff llywodraethol a'r pennaeth sydd yn gyfrifol am ysbryd/ethos yr ysgol.

*Ni fydd agwedd y gymuned yn cael ei gyfleu yn yr ysgol ardal.*

Mae her wrth gael pedwar cymuned yn nodi beth maent yn ei ddyheu ac yn ceisio'i wireddu, ac mae'r Awdurdod yn ymwybodol o hyn. Bydd nifer y rhieni ar y corff yn golygu bydd cynrychiolaeth dda o bob un o'r cymunedau.

*Nodwyd bod corff llywodraethu Ysgol Ieuan Gwynedd yn anfodlon bod ad-drefnu yn y dalgylch yn cael ei wneud mewn tair rhan. Mae ymwybyddiaeth bod problemau ariannol, problem gyda safle yn y Gorllewin a niferoedd bregus ond mae gweithredu fel hyn yn diystyru opsiynau fel plant Llanfachreth yn mynd i Ganllwyd.*

Nodwyd bod bwriad i greu sefydliad gydol oes yn y dref a bod ymrwymiad wedi ei wneud i ddychwelyd i Gorllewin y dalgylch yn dilyn etholiad 2012. Nodwyd bod safleoedd yn y dref a Gorllewin y dalgylch wedi bod yn anodd. Cytunwyd byddai wedi bod yn well ad-drefnu'r dalgylch gyfan ar yr un pryd, ond nad oedd amgylchiadau'n caniatau.

Atgoffwyd bod cynnwys y cofnodion yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad ond ei fod yn bwysig derbyn sylwadau hefyd. Efallai bydd y corff eisiau ymateb yn ogystal ag ymatebion unigol.

*Nododd y llywodraethwyr eu bod eisiau'r cyfle gorau i blant ar y safle gorau. Nid yw'r llywodraethwyr yn erbyn egwyddor o ysgol ardal. Wrth sôn am safle, ydi'r cynlluniau yn cyfri disgyblion all-dalgylch?*

Wrth gynllunio mae rhaid darparu ar gyfer plant sydd yn mynychu'r ysgolion nawr. Byddai hyn yn wir os byddai'r safle yn Ieuan Gwynedd neu Brithdir.

*Posibilrwydd i'r ysgol fod yn llai na'r plant sydd yn y dalgylch ymhen 20-50 mlynedd?*

Disgyblion y dalgylch fydd yn cael blaenoriaeth, bydd mynediad yn cael ei reoli yn unol â'r polisi mynediad sydd yn cael ei weithredu ar draws y Sir.

Eisiau clirio'r pwynt am gludo rhwng Dinas Mawddwy a Brithdir. Nodwyd bod posib i blant cael eu cludo o Brithdir i Dinas Mawddwy ond ddim yn rheolaidd. Rhagwelir bydd hyn yn digwydd ar achlysuron arbennig yn unig.

Diolchodd Dewi Jones i'r llywodraethwyr am fynychu ac am eu sylwadau.

# CYFARFOD STATUDOL RHIENI YSGOL IEUAN GWYNEDD 6:00, 9 TACHWEDD 2011

28 o rieni ac aelodau o'r gymuned yn bresennol yn cynnwys y pennaeth. Derbyniwyd pedwar ymddiheuriad gan ddarpar rieni [Elgan a Nicola Pugh, Dyfan a Gwenan Roberts].

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones, y Pennaeth Addysg. Cyflwynwyd swyddogion y Cyngor: Cyng. Liz Saville Roberts - Deilydd Portffolio Addysg, Tony Bate - Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Dafydd Gibbard - Rheolwr Eiddo Corfforaethol, Hefin Owen - Rheolwr Cyllid Datblygu, Iwan Evans – Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol, Gwenan Jones-Parry - Cofnodi'r Cyfarfod.

**Cyflwyno'r Cynnig**

Rhoddwyd cyflwyniad mewn dwy ran. Cyflwynodd Tony Bate wybodaeth am y cynnig gyda chrynodeb o gynnwys y ddogfen ymgynghorol statudol. Cyflwynodd Dafydd Gibbard wybodaeth ar faterion eiddo ac am gynllun cysyniadol o'r cynnig i ddatblygu safle Brithdir.

**Trafodaeth Agored - Cyflwyno'r Cynnig**

Nodwyd efallai byddai'r rhieni gydag awydd i ysgrifennu gyda'i gilydd i ymateb i'r ymgynghoriad yn ychwanegol i ysgrifennu'n unigol.

*Cyfeiriwyd at y bwriad o blethu Brithdir gyda Dinas Mawddwy, faint o deithio rhwng safleoedd fydd yn digwydd? Roedd hyn yn rhan bwysig o leoli'r ysgol ardal yn Brithdir.*

Eglurwyd bod eisiau clirio'r camsyniad o blant yn teithio'n ddyddiol i Dinas Mawddwy. Rhagwelir bydd y plant yn teithio i Dinas Mawddwy ar rai achlysuron arbennig. Mater i'r pennaeth a'r corff llywodraethol bydd hyn ond mae'n gyfle i rannu arbenigeddau staff, gall plant y ddau safle gael budd o holl staff yr ysgol.

*Penderfyniad ar safle Brithdir yn bendant?*

Brithdir yw'r safle dewiswyd i ymgynghori arno. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn dilyn yr ymgynghoriad. Cafodd manteision ac anfanteision safle Brithdir ac Ieuan Gwynedd eu hystyried a phenderfynodd y Bwrdd ddewis Brithdir i ymgynghori arno. Mae 84% o ddisgyblion dan sylw yn y cynnig yma'n byw yn agosach i Frithdir nac i Ieuan Gwynedd.

*Yw plant Dinas Mawddwy yn cael eu cynnwys yn y 84% oherwydd nid ydynt yn berthnasol. Dylai bod disgyblion Dinas Mawddwy yn cael eu diystyru. Ydi'r ffigwr yma'n cynnwys plant sydd yn byw yn Dolgellau?*

Mae'r ffigwr yn seiliedig ar ddisgyblion sydd yn mynychu'r bedair ysgol nawr, yn cynnwys rhai sydd yn byw yn Dolgellau. Rhaid cynllunio ar gyfer disgyblion sydd yn mynychu'r ysgolion ar hyn o bryd. Rhan helaeth o ddisgyblion sydd yn mynychu yn byw yn Brithdir ei hun. Deallwyd bod ffigyrau'n newid ond rhaid i'r Cyngor weithredu ar ffigyrau nawr. Yn seiliedig ar niferoedd disgyblion Medi 2011 y gwir yw bod un ysgol yn orlawn ac un ysgol yn agos iawn at fethu cyflogi pennaeth ac athro.

*Byddai'r nifer sydd yn mynychu'r ysgol ardal yr un peth, difater o'i safleoedd presennol.*

Nodwyd wrth ddewis Ieuan Gwynedd byddai'n gofyn i lawer mwy o ddisgyblion symud. Wrth gymharu'r ddwy ysgol yn unig, byddai 45 o ddisgyblion yn symud i Ieuan Gwynedd ond 16 yn unig yn symud i Frithdir, byddai'n amharu ar lai o nifer. Nodwyd bod rhaid cofio bod mwy o symud rhwng dalgylchoedd ysgolion cynradd yn nalgylch Y Gader na unrhyw ddalgylch arall yn Wynedd. Am ba bynnag rheswm mae patrwm o gynnydd yn niferoedd Brithdir ac mae'n wir bod 17 yn dod o dref Dolgellau. Mae'n amlwg bod rhai eisiau addysg wledig, yr un peth yn wir am niferoedd all-dalgylch Machreth. Rhaid nodi bod disgyblion dalgylch Ieuan Gwynedd yn dryw i'w hysgol, mae 100% o ddisgyblion y dalgylch yn mynychu'r ysgol.

*Nodwyd bod Brithdir yn derbyn y disgyblion o dref Dolgellau oherwydd ei fod yn agosach i Ddolgellau.*

*Nodwyd bod pwyslais wedi bod am Cynghorwyr lleol ond nid yw Cynghorydd lleol Rhydymain wedi bod yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned na cyfarfod llywodraethwyr yr ysgol ers dros flwyddyn. Dim trafodaeth wedi bod gyda'r gymuned.*

Atebwyd bod y swyddogion presennol ddim yn gallu siarad ar ran yr aelod ond nodwyd ei fod yn ddyletswydd trafod gydag aelodau cyn mynd i ymgynghori, hyn wedi ei fabwysiadu fel rhan o broses ad-drefnu'r Cyngor.

*Nid ydy ffeithiau a barn Rhydymain wedi cael ei glywed, neb wedi siarad gyda'r gymuned.*

Mynegwyd ei bod yn dod yn glir mai lleoliad safle'r ysgol ardal yw'r mater sydd yn cael ei wrthwynebu, nid sefydlu ysgol ardal.

*Nododd y gynulleidfa bod synnwyr cyffredin yn nodi bod Ieuan Gwynedd yn well ddewis gan ei fod yn safle rhatach a mwy diogel. Mae lle yn Rhydymain i ychwanegu 29 o ddisgyblion heb newid o gwbwl.*

Atebwyd bod yr ysgol ardal dan sylw yn ysgol i 98 o blant (78 Brithdir a 20 Dinas Mawddwy). Wrth ad-drefnu dalgylch y gobaith yw gadael adeilad o safon uchel gall barhau am hanner can mlynedd a mwy. I addasu Ieuan Gwynedd i dderbyn y disgyblion i gyd bydd rhaid ychwanegu 270m$^2$ ar gost o £1.05miliwn ac i addasu Brithdir bydd rhaid ychwanegi 345m$^2$ ar gost o £1.65miliwn. Mae gwahaniaeth cost yn bodoli nid yw'r Cyngor yn gwadu hyn. Wrth edrych ar agwedd adeiladu a chost does dim dadl mai Ieuan Gwynedd byddai orau ond ystyriwyd ffactorau eraill a phenderfynodd Bwrdd y Cyngor o blaid safle Brithdir i ymgynghori arno.

*Oes unrhyw ymgynghoriad gyda rhieni wedi bod i weld lle bydda nhw'n gyrru eu plant? Amhosib dyfalu. Efallai bydd rhai yn mynd i Ganllwyd, does dim sicrwydd bydd pawb yn mynd i'r ysgol ardal newydd.*

Nid oes ymgynghori wedi digwydd, nawr yw'r cyfnod ymgynghori. Mae'n amhosib gwybod yn union oherwydd bod gan rieni ddewis. Cyngor yn cyfaddef bod risg i'r cynnig ond mae rhaid gweithredu nawr ac nid oes angen aros am arian gan Llywodraeth Cymru. Ymrwymiad wedi ei wneud i gynnal addysg wledig, creu un ysgol fawr yn Dolgellau byddai'r ateb mwyaf cost effeithiol. Os oes tystiolaeth gennych pam ddylai Rhydymain gael ei ddewis fel y prif safle, cyfathrebwch eich sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Y prif nod yw gwneud y gorau posib i addysg plant yr ardal.

*Mae ffordd Cross Foxes yn cael ei wella sydd yn meddwl bydd mwy o bobl yn ei defnyddio gall hyn olygu bydd y ffordd yn fwy peryg. Ar y darlun yn y cyflwyniad nid oedd digon o lefydd parcio.*

Atebwyd mai 'artist impression' oedd hyn a bod angen gwneud darlun mwy manwl ar gyfer cael ei drafod gan y grŵp defnyddwyr.

*Gofynnwyd a yw'r costau yn seiliedig ar 'artist impression'?*

Gafodd y cynllun ei seilio ar arbenigedd pensaer a phrofiad blaenorol.

*Nodwyd nad oedd 'artist impression' o'r ysgol ardal ar safle Ieuan Gwynedd i alluogi cymhariaeth deg. Ffactorau fel niferoedd plant yw'r rhai sydd wedi ei amlygu. Nodwyd bod angen ystyried iechyd a diogelwch plant ar y safleoedd a phroblem eira a rhew, ffordd sydd wastad, ffordd 'B' yn unig i Frithdir. Pwysau ar ysgolion i aros ar agor yn ystod tywydd garw. Blwyddyn ddiwethaf 1 diwrnod caewyd Ysgol Ieuan Gwynedd tra bod Ysgol Brithdir ar gau am wythnos gyfan.*

Safle Brithdir ddim yn y pentref a thraffig trwm ar y ffordd sydd gyda throad cul o flaen lle mae'r mynediad arfaethedig. Nodwyd bod hyn yn glir yn yr 'artist impression'.

Atebwyd bod dim cornel yn y mynediad arfaethedig yn ôl y map 'Ordnance Survey'. Bydd darn y ffordd o flaen y cae rhwng y mynediad arfaethedig a'r adeilad presennol yn cael ei sythu fel rhan o'r addasiadau.

*Yw costau adeiladu fel gwaith sylfaen wedi ei gynnwys oherwydd bydd mwy o waith yn Brithdir na fyddai'n Ieuan Gwynedd oherwydd bod y tir yn anwastad.*

Atebwyd bod costau addasiadau i'r ddau safle yn cynnwys bob dim ddangoswyd yn y cyflwyniad. Ni fydd mwy o waith gosod sylfaen yn Brithdir ond bydd angen lefelu mwy o dir. Hwn yn rhan o'r £0.5miliwn gwahaniaeth mewn cost.

*Ydy Ysgol Brithdir ar system neu danc septig?*

Tanc septig ond bydd nifer ar y safle dim ond yn dyblu.

*Niferoedd plant wedi ei ddefnyddio fel dadl gref yn Brithdir ond 17 ohonyn nhw'n all-dalgylch. Os byddai dewis Brithdir ddim yna bydd Ieuan Gwynedd yn cael ei ddewis. Mae'n gamarweiniol selio dadl ar niferoedd plant, mae'n sefyllfa artiffisial sydd yn gallu newid mewn dim. Pellter o Dinas Mawddwy hefyd yn ddadl ond does dim llawer o deithio ychwanegol i gyrraedd Ieuan Gwynedd a nodwyd yn gynharach ni ragwelir llawer o gludo plant. Dadleuon o blaid safle Brithdir ddim yn gryf iawn.*

Patrwm symud rhwng Dinas Mawddwy a Brithdir i'w benderfynu gan y corff llywodraethol. Y gwir yw bod mwy o blant yn byw yn nalgylch Brithdir, mae 23 yno na'r 10 sydd yn byw yn nalgylch Ieuan Gwynedd.

*Mae caniatâd cynllunio am dai yn Rhydymain gall effeithio ar niferoedd yn y dyfodol agos. Nodwyd fod y lleoliad yn well ac yn fwy diogel.*

Mae Bwrdd y Cyngor wedi pwyso a mesur y pwyntiau yma wrth ystyried sylwadau o'r 'SWOTs' (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) trafodwyd yn y panel adolygu dalgylch, barn Cynghorwyr lleol a'r pwyntiau addysgol a technegol.

*Nodwyd yn gryf bod angen bwydo nôl i holl aelodau'r Cyngor bod y cynghorydd lleol heb drafod gyda'r gymuned o gwbwl felly'n annheg i ddefnyddio'r pwynt yma.*

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa bod y safle wedi ei ddewis o'r wybodaeth sydd yn cael ei gyfleu. Bob dim sydd ei angen yn Ieuan Gwynedd eisoes a Brithdir sydd wedi ei ddewis – pam?*

Atebwyd bod safle wedi ei ddewis i ymgynghori arno felly dyma yw'r cynnig gerbron. Mae cyfleusterau ac adeiladau presennol Brithdir ac Ieuan Gwynedd wedi cael ystyriaeth ond mae mwy o ffactorau i'w ystyried. Mae Brithdir yn orlawn ac Ieuan Gwynedd yn agos at allu cyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. Dim yn ddoeth anwybyddu'r broblem argyfyngus niferoedd yn yr ysgol.

*Ni fydd yn bosib cynyddu niferoedd tra bydd ad-drefnu'n bygwth cau.*

Mae hyn yn broblem wrth ad-drefnu unrhyw ardal ac yn reswm dros weithredu'n gyflym.

*Codwyd pryderon bod ddim trafodaeth am yr ateb yn ardal Gorllewin y dalgylch.*

Cyfaddef bod ateb yn Gorllewin y dalgylch yn creu problem ac mae'r ymrwymiad yn sefyll i ddychwelyd yn 2012.

*Os weithredir y cynnig, a fydd yn barod erbyn Medi 2013?*

Nid oes rheswm i feddwl na fydd yn barod ar hyn o bryd. Cyfnod adeiladu yn 9-12 mis, golygai hyn bod angen dechrau gwaith ar y safle ar y cynharaf mis Medi 2012. Bydd paratoi wrth fynd trwy'r broses cynllunio yn digwydd tra bod y cynnig yn cael ystyriaeth gan y Llywodraeth (os dderbynnir gwrthwynebiadau) i alluogi dechrau ar y safle Medi 2012. Iechyd a diogelwch ac ansawdd dysgu plant Brithdir (enwedig blwyddyn 6) yn flaenoriaeth wrth gynllunio'r gwaith. Nodwyd fod gan y Cyngor lawer o brofiad blaenorol yn gwneud hyn, yn ddiweddar roedd datblygiad tebyg yn Pentreuchaf oedd llawer anoddach na'r datblygiad arfaethedig yn Brithdir. Roedd rhaid i'r gweithwyr fynd trwy iard chwarae'r ysgol, ond gyda rheoli caeth cwblheuwyd y gwaith heb broblem. Pennaeth Pentreuchaf yn nodi bod y broses wedi bod yn un positif. Bydd datblygiad Brithdir yn rhwyddach gan fod mynediad hollol newydd yn cael ei greu. Ni fydd yn hawdd ond bydd gwaith paratoi blaenllaw yn hanfodol.

*Un aelod o'r gynulleidfa wedi clywed bod cae chwarae'r ysgol ardal am fod ar safle Dinas Mawddwy yn hytrach na Brithdir.*

Nid yw hyn yn wir, bydd cae chwarae ar safle Brithdir.

*Cyfeiriwyd at yr uned addysg arbennig yn Ieuan Gwynedd.*

O safbwynt y ddarpariaeth yma, fel rhan o ddatblygiad Ysgol Gynradd Dolgellau (Cyngor wedi ymrwymo arian eisoes) bydd Tŷ Aran yn cael ei ddatblygu. Rhaid nodi bod cais ariannol yn cael ei wneud i Llywodraeth Cymru am ysgol gyfatebol i Ysgol Pendalar yn ardal Dwyfor/Meirionnydd (Ysgol Hafod Lon newydd). Bydd arbenigeddau staff a chyfleusterau gorau yno, mae datblygiadau ar y gweill.

*Pryderon am yr iaith Gymraeg, nodwyd bod y cynnig am atgyfnerthu ond lleoliad Brithdir yn agos iawn i Ddolgellau. Ysgol newydd yn denu plant o'r dref a denu plant Di-Gymraeg .*

Bydd gan yr ysgol rhif mynediad a ni fydd yn derbyn plant dros y rhif yma yn unol â'r polisi mynediad. Wrth sefydlu ysgol ardal newydd mae cyfle unigryw i sefydlu ethos cryf a datblygu'r Gymraeg.

*Ysgol ardal y wlad, beth am achlysuron amser Nadolig?*

Cyn i'r ysgol agor bydd corff llywodraethu cysgodol yn cael ei sefydlu a bydd rhaid trefnu cynrychiolaeth o'r pedwar ardal. Bydd y corff llywodraethu'n bwysig i gynrychioli'r cymunedau.

*Pam cynnal adeilad mor hen yn Brithdir, bydd y neuadd mewn adeilad hynaf na Ieuan Gwynedd. A fydd y neuadd ddigon mawr ar gyfer achlysuron fel sioe Nadolig? Os ddim a fydd neuadd bentref Brithdir yn cael ei ddefnyddio? Nid oes llwybr troed o'r ysgol i'r neuadd bentref yn Brithdir. Neuadd Rhydymain yn dal dros 300 o bobl am ddim.*

Mae'n wir bod yr adeilad yn hen ond bydd gwaith yn cael ei wneud arno. Bydd yn faint digonol i ddal plant a staff yr ysgol am ddefnydd dydd i ddydd. Nid yw neuadd ysgol yn cael ei gynllunio ar gyfer achlysuron sydd yn digwydd unwaith y flwyddyn. Ysgolion eraill ar draws y Sir yn gorfod cynnal

gweithgareddau ar sawl noson i alluogi cyfle i'r holl rieni gael mynychu. Efallai bydd rhaid gwneud defnydd o neuadd bentref Brithdir, ond penderfyniad y corff llywodraethol bydd hyn. Efallai bydd y sioe Nadolig yn symud rhwng y pedwar cymuned bob blwyddyn. Rhaid cofio mai ysgol ardal bydd hon nid ysgol Brithdir. Pobl y gymuned a rhieni disgyblion presennol Ysgol Ieuan Gwynedd yn gallu cael dylanwad arno.

Bydd yr Awdurdod yn dechrau sefydlu'r corff llywodraethol cysgodol i alluogi penodi pennaeth a gweddill staff yr ysgol. Yn dilyn agor yr ysgol bydd corff llywodraethu'n cael ei greu yn unol â'r drefn bresennol mewn unrhyw ysgol. Mae opsiynau gwahanol gyda maint y corff llywodraethol - gall cael rhwng 9-17 o aelodau yn ddibynnol ar y strwythur a ddewisir. Bydd aelodau cyfetholedig o'r gymuned, rhieni, staff a phennaeth yr ysgol yn aelodau fel y drefn bresennol.

Nodwyd bod yn glir o'r drafodaeth bod gwrthwynebiad i'r dewis o Frithdir fel safle ond pan fydd ymatebion i'r ymgynghoriad os byddai'r gynulleidfa'n gallu rhoi mewnbwn/sylwadau ar faterion fel strwythur y corff llywodraethol byddai'r cyngor yn ddiolchgar.

Crynhowyd bod y drafodaeth yn debyg iawn i'r hyn drafodwyd gyda staff a llywodraethwyr yr ysgol, dim yn gwrthod ysgol ardal ond safle'r ysgol ardal.

*Nodwyd gan y gynulleidfa eu bod 100% yn erbyn lleoliad y safle. Mae Ieuan Gwynedd yn fwy diogel na safle Brithdir. Mae tŷ preifat yng nghefn yr ysgol ac mae trigolion y tŷ'n hollol iawn ond pa sicrwydd sydd am ddyfodol preswylwyr y tŷ? Gall unrhyw un symud yno. Safle Brithdir yn gweld dim haul, eira a rhew ddim yn toddi yn ystod y dydd sydd yn meddwl bod y ffordd yn beryg trwy'r dydd. Wrth roi adeilad arall a phlannu coed bydd y safle yn derbyn llai byth o haul.*

Atgoffwyd bod angen cyfleu pwyntiau fel hyn sydd yn creu pryder mewn ymatebion i'r cyfnod statudol.

*Beth fydd yn digwydd i adeilad Ysgol Ieuan Gwynedd petai'r cynnig mynd yn ei flaen?*

Atebwyd bod gan y Cyngor polisi ôl-ddefnydd adeiladau addysgol. Bydd y cynnig cyntaf yn cael ei rhoi i'r gymuned a bydd Swyddog Adfywio Bro yn cynorthwyo'r gymuned gyda'r cynllun busnes. Gall cadw'r adeilad mynd neu wneud defnydd arall o'r tir. Yn Abergynolwyn er enghraifft mae syniad o ddymchwel yr ysgol a chreu tai fforddiadwy wedi ei godi.

*Beth sydd yn digwydd i arian os gaiff yr ysgol ei werthu – e.e. arian o werthu Ysgol Llawr Y Betws?*

Arian o asedau'r Cyngor yn mynd yn ôl i'r Cyngor ond mae arbedion refeniw (arbedion blynyddol rhedeg ysgolion) yn dychwelyd i'r adran addysg.

*Gofynnwyd a yw'r Cyngor yn berchen tir ac adeilad Brithdir i gyd? Brithdir yn adeilad rhestredig ac os yw addysg ddim yn cael ei gynnal ar y safle mae cynnig cyntaf yn mynd i 'Stad Cae Ddermwg'. Pwysig bod yn glir am hyn achos bod posib gwario ar y safle ac mewn blynyddoedd bydd gwerth am y newidiadau yn mynd i'r stad.*

Mae'n edrych bod cyfyngiadau gyda'r adeilad yn Brithdir, bod angen rhoi cynnig cyntaf i'r stad ond bydd rhaid edrych ar hyn yn fanylach i gael yr ateb llawn. Nodwyd bod risg gyda'r cynllun ond bod y Cyngor yn credu bod y cynnig yma'n gynaliadwy i'r dyfodol. Nodwyd bod Cyngor a'r Eglwys yn berchen ar Ysgol Machreth a bod ôl-ddefnydd wedi ei drafod yn y cyfarfodydd statudol yno.

*Am faint fydd safle Dinas Mawddwy ar agor? Oes lle i symud disgyblion safle Dinas Mawddwy i Frithdir?*

Does dim awydd gan y Cyngor i gau safle Dinas Mawddwy.

*Gofynnwyd i'r pennaeth addysg iddo ddewis, fel rhiant, rhwng safle Brithdir ac Ieuan Gwynedd i roi ei blant ar hyn o bryd?*

Atebwyd yn blaen mai ar sefyllfa nawr byddai'n dewis Ieuan Gwynedd ond bod hyn yn amherthnasol oherwydd bod gwariant sylweddol am fod yn Brithdir.

*Ydi'r tirfeddiannwr am werthu i'r Cyngor?*

Mae opsiwn cyfreithiol yn bodoli ar y tir yn Brithdir ac yn Ieuan Gwynedd i alluogi prynu'r tir pan fydd y Cyngor yn barod.

*Ni ddylai meithrinfa Seren Fach yn Brithdir cael ei ystyried wrth ddewis safle oherwydd ei fod yn fusnes preifat. Y feithrinfa yn nol plant o Ysgol Ieuan Gwynedd beth bynnag felly mae'n mantais i'r ddau safle. Dim cylch meithrin yn y feithrinfa.*

Nodwyd bod y feithrinfa yn agosach i Frithdir wrth ystyried safleoedd, mae hyn yn ffeithiol gywir. Rhaid ystyried darpariaethau addysg yn yr ardal i roi darlun llawn.

*Ail nodwyd gan aelodau'r gynulleidfa bod cynghorydd lleol heb fod yn y gymuned i drafod a bod y safle yn Brithdir yn anaddas. Beth am feicio i'r ysgol, bosib nawr beicio i Ieuan Gwynedd a chael hyfforddiant beics, nid oes lle yn Brithdir i wneud hyn.*

Atgoffwyd bod angen cyfleu'r pwyntiau yma wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Nodwyd lle bynnag bydd y safle terfynol bod pawb eisiau'r ddarpariaeth addysg gorau i blant yr ardal.

Diolchodd Dewi Jones i'r rhieni a'r gymuned am fynychu ac am eu sylwadau.